Rhif WG28794

Llywodraeth Cymru

**Dogfen Ymgynghori**

# Ymgynghoriad ynghylch diwygio ffioedd trwyddedu morol a thaliadau cysylltiedig yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: **05 Medi 2016**
Ymatebion erbyn: **28 Tachwedd 2016**

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio'ch barn ar gynigion i newid y ffioedd a'r taliadau sy'n gysylltiedig â'r gyfundrefn trwyddedu morol fel y'i gweithredir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar ran Gweinidogion Cymru. |
| **Sut i ymateb**<br><br>Drwy e-bost:<br><br>Drwy'r post: | Gellir cyflwyno ymatebion drwy lenwi ffurflen ymateb ar-lein ar wefan Lywodraeth Cymru: http://gov.wales/consultations/environmentandcountryside/?lang=cy<br><br>Gellir cyflwyno'r ymatebion hyn yn electronig neu drwy'r post ond byddai'n well gennym gael eich ymateb yn electronig.<br><br>marineandfisherieslegislation@wales.gsi.gov.uk<br><br>Ymgynghoriad ynghylch Ffioedd Trwyddedu Morol<br>Is-adran y Môr a Physgodfeydd<br>Llywodraeth Cymru<br>Rhodfa Padarn<br>Llanbadarn Fawr<br>Aberystwyth<br>SY23 3UR |
| **Rhagor o Wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill. |
| **Manylion cyswllt** | Am ragor o wybodaeth ffoniwch **0300 062 2184.** |
| **Diogelu data** | Sut y caiff y sylwadau a'r wybodaeth a roddir gennych eu defnyddio:<br><br>Caiff unrhyw ymateb a anfonwch atom ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion sy'n destun yr ymgynghoriad hwn. Efallai y caiff ei weld hefyd gan aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Efallai y byddwn hefyd yn cyhoeddi ymatebion yn llawn. Fel arfer, caiff enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y person neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb eu |

| | |
|---|---|
| | cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hyn yn helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol. Os nad ydych am i ni gyhoeddi eich enw na'ch cyfeiriad, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig pan fyddwch yn anfon eich ymateb. Yna byddwn yn cuddio eich manylion.<br><br>Gallai enwau neu gyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio gael eu cyhoeddi yn hwyrach, ond nid ydym yn credu y byddai hyn yn digwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn am gael gweld y wybodaeth sydd gan nifer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni beidio â datgelu gwybodaeth o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth rydym wedi peidio â'i rhoi, bydd yn rhaid i ni benderfynu p'un a ddylid ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, gallai fod rhesymau pwysig weithiau pam y byddai'n rhaid i ni ddatgelu enw a chyfeiriad unigolion, er eu bod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn i ni wneud penderfyniad terfynol ynghylch datgelu'r wybodaeth. |

## MYNEGAI


| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|
| Rhagair | 5 |
| Crynodeb | 7 |
| **Rhestr Termau** | 7 |
| Cefndir | 8 |
| Cytundebau Lefel Gwasanaeth Cyfoeth Naturiol Cymru | 10 |
| Gwelliant Parhaus | 11 |
| Pam bod Llywodraeth Cymru yn Gwneud Newidiadau? | 12 |
| Beth sy'n Newid? | 12 |
| Y Ddeddfwriaeth | 13 |
| Ymgysylltu â Rhanddeiliaid | 14 |
| Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft | 14 |
| Adran 1 – Y Tri Opsiwn o ran Model | 15 |
| Adran 2 – Ffioedd a Thaliadau Arfaethedig gan Ddefnyddio'r Model Haenog (Opsiwn B) | 20 |
| Adran 3 – Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid | 35 |
| **Atodiad 1** – Y Model a'r Strwythur Ffioedd Presennol yng Nghymru | 38 |
| **Atodiad 2** – Dadansoddiad yn ôl Cyfradd yr Awr | 41 |
| **Atodiad 3** – Rhestr o Ymgyngoreion | 42 |
| Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad | |

## Rhagair gan Ysgrifennydd y Cabinet

Yn sgil Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, rwy'n lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar ddiwygio ffioedd a thaliadau trwyddedu morol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r gyfundrefn Asesu Effaith Amgylcheddol (AEA), yng Nghymru.

Mae cryn dipyn o waith wedi'i wneud i gyrraedd y man hwn ac rwy'n ddiolchgar i chi, ein rhanddeiliaid trwyddedu morol yng Nghymru, am ymgysylltu â ni drwy gydol y broses hon. Mae hyn yn rhan o adolygiad ehangach a fydd hefyd yn ystyried eithriadau trwyddedu morol maes o law. Edrychaf ymlaen at eich cyfranogiad yn ystod y camau nesaf wrth inni ddatblygu'r cynigion hyn.

Mae'n dda gennyf nodi bod y cynigion yn adlewyrchu ein bwriad i symud tuag at system o adennill costau'n llawn. Y nod cyffredinol yw cyflwyno trefn gadarn, deg a thryloyw sy'n addas at y diben ar gyfer codi ffioedd sy'n gysylltiedig â thrwyddedu morol a'r gyfundrefn AEA yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn sylweddoli bod twristiaeth, trafnidiaeth, pysgodfeydd, diwydiannau ynni adnewyddadwy'r môr a diwydiant agregau Cymru, ymhlith eraill, yn hollbwysig i economi Cymru. Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn cael ei ddatblygu i gyflawni ymrwymiad y llywodraeth hon i gefnogi'r diwydiannau hyn, a'n cymunedau arfordirol, gan ddarparu fframwaith galluogi er mwyn defnyddio adnoddau morol Cymru yn gynaliadwy i ategu ein nodau llesiant yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rwy'n ymrwymedig i gyflwyno dull integredig o lunio polisi ar gyfer ein harfordir a'n môr er mwyn darparu fframwaith ar gyfer moroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol a biolegol. Bydd y dull gweithredu hwn yn ein helpu i wireddu ein huchelgais ar gyfer 'Twf Glas' yma yng Nghymru tra'n sicrhau y caiff ein moroedd eu datblygu'n gynaliadwy.

Ein hegwyddorion arweiniol yw y byddwn yn cyflawni mwy drwy gydweithio â rhanddeiliaid i ddatblygu economi'r môr. Credaf y bydd trefniadau trwyddedu effeithiol yn gyfraniad pwysig tuag at gyflawni Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru tra'n cydbwyso'r defnydd o'n moroedd a'r ffordd rydym yn eu gwarchod.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn ar 11 o gwestiynau allweddol. Byddwn yn gwerthfawrogi clywed eich barn yn fawr iawn ac edrychaf ymlaen at wrando ar yr hyn sydd gennych i'w ddweud ar y mater pwysig hwn.

**Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig**

## Crynodeb

1. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio'ch barn ar gynigion i newid y ffioedd a'r taliadau sy'n gysylltiedig â'r gyfundrefn trwyddedu morol a'r gyfundrefn Asesu Effaith Amgylcheddol gysylltiedig yng Nghymru, fel y'i gweithredir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar ran Gweinidogion Cymru.

2. Mae'r ymgynghoriad yn amlinellu cynigion ar gyfer model ffioedd newydd a'r ffioedd a'r taliadau i'w codi o dan y model hwnnw. Bydd y ffioedd hyn yn gymwys pan fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu fel yr awdurdod trwyddedu ar gyfer trwyddedu morol a'r awdurdod priodol ar gyfer y gyfundrefn AEA yn nyfroedd Cymru. Yn amodol ar yr ymgynghoriad hwn, y nod yw cyflwyno'r ffioedd newydd ym mis Ebrill 2017.

3. Dylai'r rhai sy'n dymuno ymateb i'r ymgynghoriad wneud hynny erbyn 28 Tachwedd 2016.

## Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| ACA | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| AEA | Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol |
| AGA | Ardal Gwarchodaeth Arbennig |
| CEFAS | Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu |
| DMMA | Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 |
| DPAau | Dangosyddion Perfformiad Allweddol |
| Gorchymyn Esemptiadau | Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011 |
| Rheoliadau Apelau Hysbysiadau | Rheoliadau Trwyddedu Morol (Apelau Hysbysiadau) (Cymru) 2011 (Rheoliadau Apelau Hysbysiadau) |
| Rheoliadau Gwaith Morol | Rheoliadau Gwaith Morol (Asesu Effaith Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd) |
| Rheoliadau Ffioedd | Rheoliadau Trwyddedu Morol (Ffioedd am Geisiadau) (Cymru) 2011 |
| SoDdGA | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig |
| Trwyddedu Morol | Trwydded a roddir o dan Ran 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 |

## Cefndir

4. Sefydlwyd system trwyddedu morol y DU drwy Ran 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (DMMA)[1] ac fe'i hatodir gan gyfres o is-ddeddfwriaeth yng Nghymru. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu o dan Ran 4 o DMMA ac ym mis Ebrill 2013 dirprwywyd y mwyafrif o'u swyddogaethau fel awdurdod trwyddedu i Cyfoeth Naturiol Cymru drwy Orchymyn Trwyddedu Morol (Dirprwyo Swyddogaethau) (Cymru) 2013[2]. Mae Gweinidogion Cymru yn cadw'r pŵer i bennu ffioedd ar gyfer trwyddedu morol a'r gyfundrefn AEA.

5. Mae angen trwydded forol ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau yn nyfroedd Cymru cyn y gellir ymgymryd â gwaith. Y trwyddedau mwyaf cyffredin yw'r rhai sy'n ymwneud â gwaddodion sylweddau neu wrthrychau yn y môr, neu ar neu o dan wely'r môr; symud sylweddau o wely'r môr; prosiectau adeiladu yn y môr neu dros y môr, neu ar neu o dan wely'r môr; a phob math o garthu a chodi deunydd (gan gynnwys agregau). Gall graddfa'r gwaith morol amrywio'n fawr. Enghreifftiau o weithgareddau y mae angen trwydded forol ar eu cyfer yw:

- carthu mordwyol a gwaredu deunydd a garthwyd yn y môr
- codi agregau
- adeiladu prosiectau ynni adnewyddadwy ar y môr
- tynnu gwaddodion at ddibenion samplu
- gosod tyrbinau llanw neu dyrbinau gwynt
- gwaith adeiladu ar yr arfordir (morgloddiau, glanfeydd, estyniadau i borthladdoedd/harbyrau ac ati).

## Costau darparu ar gyfer trwyddedu morol ac Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol

6. Wrth gyflawni rôl yr awdurdod trwyddedu (o dan DMMA) a'r awdurdod priodol (mewn perthynas ag AEA) mae sawl elfen sy'n cyfrif am gostau darparu'r gwasanaeth trwyddedu morol i Cyfoeth Naturiol Cymru:

6.1 Mae'r gwaith o brosesu pecynnau gwaith trwyddedu morol gan y Tîm Trwyddedu Morol (sy'n rhan o Wasanaeth Trwyddedu Cyfoeth Naturiol Cymru) yn cynnwys saith swyddog achos wedi'u hategu gan arweinydd tîm. Bydd y pecynnau gwaith yn cynnwys:

- gwasanaethau cyn gwneud cais
- gwneud y cais yn briodol
- bwrw golwg dros y wybodaeth a ddarparwyd
- dosbarthu at ddibenion ymgynghori
- cynnal asesiadau technegol
- drafftio dogfennau penderfyniad
- trafodaethau â chwsmeriaid a chynghorwyr mewnol

[1] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2009/23/part/4
[2] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2013/414/contents/made

- cydymffurfiaeth a monitro
- cofnodi amser a rheoli system
- adrodd ar berfformiad.

6.2 Darparu Cynghorwyr penodol ar Bolisïau Rheoleiddio Morol (wedi'u lleoli yn Adran Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio Cyfoeth Naturiol Cymru) sy'n canolbwyntio ar drwyddedu morol a fydd yn datblygu cyngor ac arweiniad allanol i gwsmeriaid a rhanddeiliaid yn enwedig ar faterion sy'n ymwneud â deddfwriaeth benodol Cymru ac a fydd yn arwain y gwaith o ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill.

6.3 Cael cyngor mewnol gan arbenigwyr technegol i lywio'r broses benderfynu. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft gwybodaeth am y canlynol:

- perygl llifogydd
- atal llygredd
- pysgodfeydd
- gwyddor daear
- prosesau arfordirol.

6.4 Cael cyngor allanol gan arbenigwyr technegol i lywio'r broses benderfynu. Efallai y bydd angen i Cyfoeth Naturiol Cymru geisio cyngor gan sefydliadau sydd â'r gallu a'r arbenigedd mewn amrywiaeth o bynciau, er enghraifft CEFAS.

6.5 Elfen gymesurol o gostau adnoddau gweithredu'r Ganolfan Derbyn Trwyddedau (sy'n rhan o Ganolfan Gofal Cwsmeriaid Cyfoeth Naturiol Cymru) i dderbyn, cydnabod a chwblhau'r gwaith cychwynnol o brosesu'r cais. Bydd hefyd yn ymdrin â thaliadau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau trwyddedu morol.

6.6 Elfen gymesurol o'r Tîm Cymorth a Datblygu Trwyddedu i arwain y gwaith o ddarparu a gweinyddu gweithgareddau trwyddedu morol syml. Bydd hefyd yn cydgysylltu ac yn arwain y gwaith o wella a datblygu prosesau a systemau trwyddedu morol yn y Gwasanaeth Trwyddedu.

6.7 Elfen gymesurol o gostau rheoli llinell cysylltiedig.

6.8 Costau gorbenion nodweddiadol.

7. Yn unol â chanllawiau Trysorlys EM a Rheoli Arian Cyhoeddus, polisi Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yw y dylid pennu ffioedd a thaliadau i adennill costau'n llawn. Bwriedir i'r dull gweithredu hwn sicrhau na fydd y llywodraeth yn elwa ar draul defnyddwyr nac yn mynd i wariant y mae trethdalwyr ei gymorthdalu.

## Cytundebau Lefel Gwasanaeth Cyfoeth Naturiol Cymru

8. Er nad oes unrhyw derfynau amser statudol i gyflawni gwaith trwyddedu morol, mae'r Tîm Trwyddedu Morol yn gweithio'n unol â chyfres o Gytundebau Lefel Gwasanaeth sy'n cael eu mesur yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol (DPAau). Yna cyflwynir adroddiad ar y rhain yn fewnol bob mis ac i Lywodraeth Cymru ddwywaith y flwyddyn. Ceir rhestr lawn o'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth trwyddedu morol cyfredol ac arfaethedig yn Nhabl 1.

**Tabl 1 – Cytundebau Lefel Gwasanaeth Trwyddedu Morol Cyfredol ac Arfaethedig**

| **Cytundebau Lefel Gwasanaeth Cyfredol**<br>Caiff Cytundebau Lefel Gwasanaeth cyfredol ar gyfer ceisiadau ffurfiol a'r broses Gwneud yn Briodol eu hasesu yn erbyn DPA o 90% | |
|---|---|
| Gwneud yn Briodol | 21 Diwrnod |
| Trwyddedau Morol nad ydynt yn ymwneud ag AEA | 4 mis |
| Samplau Cipolwg Trwyddedu Morol | 6 wythnos |
| AEA Trwyddedu Morol | Dim |
| **Cytundebau Lefel Gwasanaeth Arfaethedig 2017** | |
| Gwneud yn Briodol | 21 Diwrnod |
| Sgrinio | 8 wythnos |
| Cwmpasu | 8 wythnos |
| Sgrinio a Chwmpasu | 8 wythnos |
| Ffioedd dadansoddi samplau o waddodion | 21 diwrnod |
| Band 1 – Risg Isel | 6 wythnos ar gyfer samplau cipolwg<br>10 wythnos ar gyfer pob gweithgarwch arall |
| Band 2 – Achosion nad ydynt yn Gymhleth | 4 mis |
| Band 3 – Achosion Cymhleth | Dim* |
| Cyflawni Amodau Band 1 a 2 | 6 wythnos |
| Cyflawni Amodau Band 3 (fesul achos trwydded e.e. mwy nag un drafodaeth) | Dim* |
| Monitro | 8 wythnos |
| Amrywiad 1 Newidiadau gweinyddol | 21 diwrnod |
| Amrywiad 2 Newidiadau cyffredinol | 8 wythnos |
| Amrywiad 3 Newidiadau cymhleth | 4 mis ar gyfer Band 1 a 2<br>Dim ar gyfer Band 3* |
| Trosglwyddo trwydded | 21 diwrnod |

9. Mae Cytundebau Lefel Gwasanaeth wedi cael eu cynnig ar gyfer 2017 i fesur perfformiad yr awdurdod trwyddedu. Lle nad oes Cytundebau Lefel Gwasanaeth yn eu lle ar hyn o bryd (wedi'i nodi â '*' yn Nhabl 1), bydd y Cynghorwyr Polisi Rheoleiddio Morol yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o adolygu a datblygu'r rheini fel rhan o'r broses o wella'r gwasanaeth yn barhaus. Er enghraifft, byddant yn adolygu'r broses AEA ac yn pennu terfynau amser ar gyfer rhan o'r broses neu'r broses gyfan. Caiff pob un o'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth ei gyhoeddi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Cwestiwn 1**

A ydych yn cytuno â Chytundebau Lefel Gwasanaeth trwyddedu morol 2017 arfaethedig Cyfoeth Naturiol Cymru a restrir yn Nhabl 1 uchod?

(Defnyddiwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad i roi eich barn.)

## Gwelliant parhaus

10. Er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth trwyddedu morol mor effeithlon â phosibl, a sicrhau bod ffioedd mor isel â phosibl, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi sefydlu rhaglen o welliant parhaus ers 2013. Y cyfleoedd posibl yw:

- Nodi camau gweithredu â blaenoriaeth i wella'r broses trwyddedu morol a thynnu sylw Llywodraeth Cymru at feysydd lle y gellir adolygu polisi
- Nodi cyfleoedd ar gyfer trosglwyddo gweithgareddau trwyddedu morol syml nad ydynt yn gymhleth i Swyddogion Cymorth Trwyddedu yn y Gwasanaeth Trwyddedu ehangach, lle y bo'n briodol
- Datblygu setiau data er mwyn deall y blaenoriaethau yn y broses drwyddedu i'w hadolygu neu fanteision unrhyw newidiadau i'r broses.
- Gwella'r system cofnodi ac adrodd drwy drosglwyddo i system Rheoli Cydberthnasau â Chwsmeriaid – a ddisgwylir yn 2017-19 fan bellaf
- Gwella tudalennau gwe Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn helpu cwsmeriaid i gael hunanwasanaeth trwyddedu morol
- Nodi a chyflwyno cyfleoedd i ddadreoleiddio ymhellach ar gyfer gweithgareddau risg isel
- Cefnogi Llywodraeth Cymru a llywio adolygiad o Orchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011[3]

[3] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2011/409/contents/made

(Gorchymyn Esemptiadau)

- Datblygu cyngor ac arweiniad i gwsmeriaid a rhanddeiliaid drwy'r system trwyddedu morol gyfan a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig

- Datblygu dull gweithredu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid er mwyn gwerthuso'r model ffioedd a thaliadau.

11. Bydd y Cynghorwyr Polisi Rheoleiddio Morol yn cefnogi'r ymrwymiad parhaus i wella'r broses trwyddedu morol yn barhaus.

## Pam bod Llywodraeth Cymru yn gwneud newidiadau?

12. Rydym yn symud, hyd y gellir, i system o adennill costau'n llawn, a fydd yn galluogi'r awdurdod trwyddedu i ddarparu gwasanaethau digonol i ddefnyddwyr a sicrhau bod defnyddwyr yn talu am y gwasanaethau a ddarperir ar eu cyfer, gan gynnig dull teg o godi ffioedd.

13. Gan ddefnyddio'r incwm hanesyddol o ffioedd ers 2013 a chostau rhedeg y gwasanaethau presennol, amcangyfrifir bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn adennill tua 46% (£289,000 incwm cyfartalog). Nid yw'r ffioedd presennol wedi cael eu hadolygu ers 2010 (cyn i'r system trwyddedu morol gael ei chyflwyno) ac nid ydynt yn adlewyrchu'n gywir yr holl gostau sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth trwyddedu morol.

14. Nid yw'r ffioedd presennol yn adlewyrchu'r ystod lawn o wasanaethau a ddarperir gan Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â thrwyddedu morol AEA heddiw. Ar hyn o bryd, nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn codi ffi am bob gwasanaeth o dan y gyfundrefn AEA nac am gyngor a chymorth cyn gwneud cais.

15. Er mwyn adennill costau'n llawn, pan fo pwerau i wneud hynny, bydd angen adennill yr holl gostau sy'n gysylltiedig â phob un o elfennau'r gwasanaeth.

16. Nod cyffredinol yr adolygiad o ffioedd yw cyflwyno trefn gadarn, gymesur, deg a thryloyw sy'n addas at y diben ar gyfer codi ffioedd sy'n gysylltiedig â thrwyddedu morol a'r gyfundrefn AEA yng Nghymru.

## Beth sy'n newid?

### Y model a'r ffioedd

17. Bydd y ffordd y codir ffioedd trwyddedu morol ac AEA yn newid, yn amodol ar yr ymgynghoriad hwn – cynigiwn y dylid mabwysiadu model haenog newydd a gweithredu ffioedd newydd.

18. Amlinellwn yn **Adran 1 – Y tri opsiwn o ran Model** rydym wedi eu hystyried:

Opsiwn A – cadw'r system bresennol.
Opsiwn B – symud i fodel haenog – cymysgedd o ffioedd sefydlog a chyfradd yr awr
Opsiwn C – symud i fodel cyfradd yr awr.

19. Mae **Adran 2 – Ffioedd a Thaliadau Arfaethedig gan ddefnyddio'r Model Haenog (Opsiwn B)** yn cynnig dadansoddiad manwl o'r ffioedd a'r taliadau arfaethedig gan ddefnyddio'r model a ffefrir (Opsiwn B). Er mwyn mynd yn syth at y ffioedd arfaethedig – dilynwch y ddolen hon *Adran 2 – Ffioedd a Thaliadau Arfaethedig gan ddefnyddio'r Model Haenog (Opsiwn B*)

20. Mae

**Adran 3 – Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid** yn cwmpasu cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

## Y ddeddfwriaeth

21. Pennwyd y ffioedd cyfredol ar gyfer trwyddedu morol, a godir gan Cyfoeth Naturiol Cymru drwy Reoliadau Trwyddedu Morol (Ffioedd am Geisiadau) (Cymru) 2011[4] (Rheoliadau Ffioedd) a wneir o dan Ran 4 o DMMA. Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol o hyd am bennu'r ffioedd drwy is-ddeddfwriaeth. Er mwyn cyflwyno'r ffioedd arfaethedig, bydd angen gwneud cyfres newydd o Reoliadau Ffioedd ac ochr yn ochr â hyn pennir rhai o'r ffioedd y tu allan i ddeddfwriaeth. Y nod yw gweithredu'r holl ffioedd yn 2017.

22. Er mwyn cyflwyno ffioedd newydd, bydd Gweinidogion Cymru hefyd yn defnyddio pwerau sy'n bodoli eisoes o dan Reoliadau Gwaith Morol (Asesu Effaith Amgylcheddol) 2007[5] fel y'u diwygiwyd) i adennill costau mewn perthynas â'r gyfundrefn AEA. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn defnyddio ei bwerau ynglŷn â Chyngor a Chymorth i adennill costau sy'n gysylltiedig ag adolygu Datganiadau Amgylcheddol.

23. Yn ogystal â'r Rheoliadau Ffioedd, mae Rhan 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cynnwys pŵer, drwy hysbysiad, i amrywio, atal neu ddiddymu trwydded forol am beidio â thalu ffioedd penodol. Bydd angen diwygio Rheoliadau Trwyddedu Morol (Apelau Hysbysiadau) (Cymru) 2011[6] (Rheoliadau Apelau Hysbysiadau er mwyn sicrhau bod dull priodol o apelio mewn perthynas â hysbysiadau o'r fath.

24. Mae Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 fel y'i diwygiwyd yn rhoi pwerau i Cyfoeth Naturiol Cymru godi ffioedd mewn perthynas â darparu cyngor neu gymorth. Mae Erthygl 9 yn darparu y caiff Cyfoeth Naturiol Cymru wneud unrhyw beth yr ymddengys ei fod yn ffafriol i gyflawni ei swyddogaethau neu'n gysylltiedig â chyflawni ei swyddogaethau ac yn benodol mae Erthygl 9(2)(a) yn rhoi pwerau i Cyfoeth Naturiol Cymru ymrwymo i gytundebau. Mae Erthygl 10A yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i roi cyngor neu gymorth i unrhyw berson ar unrhyw fater y mae ganddo wybodaeth, sgil neu brofiad ohono, ac mae Erthygl 12A yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i godi tâl am waith a wneir ganddo.

25. Caiff y ffioedd newydd eu codi gan ddefnyddio'r pwerau i godi ffi a nodir o dan y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Rhan 4 o DMMA (gan gynnwys diwygiadau a wnaed gan Ran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016) – Rheoliadau Ffioedd a Rheoliadau Apelau Hysbysiadau.
- Rheoliadau Gwaith Morol

[4] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/555/contents/made
[5] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2007/1518/made
[6] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/923/contents/made

- Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (fel y'i diwygiwyd).

### Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

26. Yn ystod haf 2014 ffurfiwyd y Grŵp Rhanddeiliaid Trwyddedu Morol (y Grŵp Rhanddeiliaid) gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Penodwyd ei aelodau o blith defnyddwyr y system drwyddedu a hefyd amrywiaeth eang o gyrff a sefydliadau masnach gan gynnwys y Sefydliad Rheoli Morol, Ystad y Goron, Cymdeithas Cynhyrchion Agregau Morol Prydain (BMAPA), Grŵp Porthladdoedd Cymru a Marine Energy Pembrokeshire.

27. Mae'r Grŵp Rhanddeiliaid yn gynrychioliadol o'r sector morol, yn enwedig agregau, ynni adnewyddadwy, adeiladu, carthu/treillio, awdurdodau lleol a rheoleiddwyr trwyddedu morol eraill.

28. Defnyddiwyd y Grŵp Rhanddeiliad i brofi'r modelau'n anffurfiol. Yna cynhaliwyd gweithdy i randdeiliaid gyda chynrychiolwyr o'r Grŵp Rhanddeiliad ym mis Chwefror 2016. Cyflwynwyd y cynigion ar gyfer ffioedd, gan ddefnyddio'r model haenog a ffefrir, a cheisiwyd barn, a ddefnyddiwyd i ail-fireinio'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn.

### Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft

29. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft yn nodi costau a manteision tebygol y cynigion. Mae'n manylu ar y data a ddefnyddiwyd, a'r tybiaethau a luniwyd, er mwyn pennu'r ffioedd arfaethedig. Darperir yr asesiad fel dogfen ategol ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn. Caiff yr Asesiad ei adolygu a'i lunio'n derfynol yn dilyn yr ymgynghoriad.

**Cwestiwn 2**

A ydych yn cytuno â'n hasesiad o'r
costau a'r manteision tebygol a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft?

Rydym yn croesawu'ch sylwadau ac unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd gennych i helpu i lywio ein hasesiad.

(Defnyddiwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad i roi eich barn.)

## Adran 1 – Y tri opsiwn o ran Model

30. Ystyriodd yr Adolygiad o Ffioedd nifer o fodelau i'w defnyddio ar gyfer strwythur ffioedd newydd, er mwyn ein galluogi i gyflawni amcanion yr adolygiad. Ystyriwyd tri model yn fanwl a cheisiwyd barn rhanddeiliaid yn anffurfiol rhwng haf 2015 a dechrau 2016. Yn sgil hynny dewiswyd dull gweithredu a ffefrir er mwyn llunio cynigion ar gyfer ymgynghoriad.

**<u>Opsiwn A – Model y ffi sefydlog</u>**

**Cadw'r model presennol o ffioedd trwyddedu morol yng Nghymru**

31. Mae model a strwythur ffioedd presennol Cymru (a atodir yn **Atodiad 1**) yn cynnwys deg tabl, y mae pob un yn ymdrin â gweithgareddau gwahanol, er enghraifft prosiectau adeiladu, prosiectau ynni adnewyddadwy, echdynnu mwynau a gwaredu deunydd a garthwyd. Mae'r rhan fwyaf o'r tablau yn cynnwys bandiau gwahanol, pob un â ffi sefydlog wahanol. Mae'r bandiau yn cynnwys meini prawf gwahanol gan ddibynnu ar y math o weithgaredd, er enghraifft:

- diffinnir bandiau'r tabl adeiladu yn ôl cost prosiectau
- diffinnir bandiau prosiectau ynni adnewyddadwy yn ôl yr ynni a gynhyrchir
- diffinnir bandiau gwaredu deunydd a garthwyd yn ôl tunelli a waredir.

32. Hefyd, ceir ffioedd sefydlog am weithgareddau penodol, megis gosod angorfeydd a dyddodi olrheinyddion a lliwurau.

33. Mae cryn nifer o newidynnau rhwng ceisiadau a gyflwynir o fewn band, sy'n golygu bod bandio ceisiadau yn gywir ac yn gymesur yn her. Rydym yn cydnabod y gellid adlewyrchu'r amrywiaeth o geisiadau o fewn y bandiau presennol yn well drwy bennu prosesau cofnodi amser a chasglu data cadarn, a fyddai'n arwain at ailddiffinio bandiau. Rydym o'r farn y gellid gwella cywirdeb ar gyfer prosiectau cyffredin ac ar raddfa fach y mae mwy o ddata ar gael ar eu cyfer, gan wneud bandiau yn fwy addas at y diben ac yn fwy cymesur. Rydym yn cydnabod bod ffioedd sefydlog yn rhoi sicrwydd i gwsmeriaid ynglŷn â'r costau y bydd yn rhaid iddynt eu talu.

34. Fodd bynnag, disgwylir y bydd yn fwy anodd adennill costau'n llawn ar gyfer prosiectau cymhleth a newydd o dan yr opsiwn hwn oherwydd gall y gwaith a'r adnoddau sydd eu hangen i benderfynu ar y ceisiadau amrywio'n sylweddol ac mae'n anodd eu rhagweld.

35. Nid yw model Opsiwn A yn cynnig dull o godi tâl i ddarparu ar gyfer ceisiadau nad ydynt o bosibl yn cyd-fynd yn union â band, er enghraifft, gweithgareddau lluosog mewn cais. Nid oes modd ychwaith i gostau sy'n gysylltiedig â chostau cyn gwneud cais a chostau ôl-drwyddedu gael eu hadennill.

36. Mae modelau Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban wedi'u strwythuro ar hyn o bryd ar sail y defnydd o dablau ar gyfer gweithgareddau â haenau wedi'u bandio. Fodd bynnag, ac eithrio nifer debyg o fandiau ar gyfer yr un mathau o weithgareddau, nid oes fawr ddim tebygrwydd rhwng modelau Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban o ran sut mae'r model wedi'i boblogi. Felly, mae'n codi amheuaeth ynghylch cywirdeb o ran pa fathau o geisiadau sy'n cymryd yr amser hiraf ac, felly, sydd fwyaf costus i'w prosesu. Un o amcanion allweddol yr adolygiad o ffioedd yw ceisio sicrhau y caiff y costau eu hadennill yn llawn, tra'n sicrhau na fydd cwsmeriaid yn talu am ddim mwy na'r gwasanaeth sy'n cael ei roi iddynt.

37. Drwy ymgysylltu'n anffurfiol â rhanddeiliaid, nodwyd y dylai costau gael eu dyrannu mewn ffordd deg, dryloyw a chywir i gwsmeriaid unigol. Hefyd, mae ffioedd presennol Cymru yn anghymesur o uchel, yn enwedig ar gyfer gwaith

ar raddfa fach megis gwaith adeiladu a gwaredu deunydd a garthwyd. Roedd rhanddeiliaid yn awyddus bod Cymru yn sefydlu gwasanaeth 'carlam' i ymdrin â gweithgareddau risg isel.

38. Ar ôl ystyried pob un o amcanion yr adolygiad o ffioedd yn erbyn y model hwn, ac ystyried adborth rhanddeiliad, ein barn ni yw na fyddem yn ffafrio'r model hwn oherwydd diffyg cywirdeb a'r gallu i sefydlu system a allai adennill costau'n llawn.

**<u>Opsiwn B – Model haenog (opsiwn a ffefrir)</u>**

**Mae'n gyfuniad o ffioedd sefydlog a chyfraddau yr awr, ar bob cam o'r broses trwyddedu morol.**

39. Mae model tair haen yn cael ei ddefnyddio yn Lloegr gan y Sefydliad Rheoli Morol ar hyn o bryd. Yn fras, mae'r model yn cynnwys tair haen y daw'r rhan fwyaf o geisiadau oddi tanynt:

- Band 1 – gweithgareddau risg isel
- Band 2 – ceisiadau nad ydynt yn gymhleth nac yn cynnwys AEA
- Band 3 – ceisiadau cymhleth / sy'n cynnwys AEA.

40. At hynny, mae hefyd yn nodi'r ffioedd cymwys am weithgareddau gan gynnwys cyngor cyn gwneud cais, gwaith monitro ôl-drwyddedu a chyflawni amodau, ffioedd am deithio, dadansoddi samplau o waddodion ac amrywiadau. Codir ffi sefydlog neu dâl ar gyfradd yr awr am y gweithgareddau hyn. Nid yw llawer o'r gweithgareddau hyn yn cael eu cwmpasu gan y cynllun ffioedd presennol yng Nghymru ar hyn o bryd.

41. Mae'r model hwn yn ei gwneud yn bosibl i gostau gael eu hadennill ar bob cam o'r broses drwyddedu.

42. Mae'r model hwn yn darparu ar gyfer system gywir, cymesur a theg ar gyfer adennill costau.

43. Mae Band 1 yn cynnig dull cymesur o ymdrin â gweithgareddau risg isel. Caiff y rhain eu prosesu drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth â chyfnod penderfynu byrrach, gan adlewyrchu eu natur lai cymhleth a'r ffaith ei bod yn cymryd llai o amser i benderfynu arnynt. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhagweld y dylai fod yn hawdd nodi costau tebygol penderfynu ar geisiadau ymlaen llaw ac, felly, gellir pennu ffioedd sefydlu yn fanwl gywir.

44. Mae Band 2 yn rhoi sicrwydd i gwsmeriaid ynglŷn â'r costau ac yn sicrhau mai dim ond cost penderfynu ar eu cais hwy y byddant yn ei thalu. Mae ein cynigion yn wahanol i ddull gweithredu'r Sefydliad Rheoli Morol yn yr ystyr y bydd ffioedd sefydlog ar gyfer y categori hwn heb fandio. Mae prosiectau Band 2 wedi'u diffinio'n rhai nad ydynt yn gymhleth ac y maent yn haws eu rhagweld o ran costau.

45. Ystyrir bod costau cyfradd yr awr Band 3 yn deg gan fod hyn yn ei gwneud yn bosibl i gost wirioneddol penderfynu ar gais gael ei hadennill, gan gyfyngu ar y risg o ddiffyg incwm i'r awdurdod trwyddedu. Mae'n anodd mesur yr adnodd sydd ei angen i benderfynu ar brosiectau Band 3 yn gywir oherwydd eu natur amrywiol iawn e.e. graddfa, lleoliad a'r defnydd o dechnoleg newydd.

46. Mae'r dull hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod trwyddedu gofnodi'r amser a dreulir yn cyflawni swyddogaethau trwyddedu morol yn gywir ac, felly, byddai angen sefydlu system cofnodi amser fwy datblygedig.

47. Awgrymodd adborth gan randdeiliaid yn ystod yr ymarfer ymgysylltu anffurfiol yr ystyriwyd mai model y Sefydliad Rheoli Morol o godi tâl yn ôl cyfradd yr awr am yr amser a dreulir ar y ceisiadau cymhleth oedd yr un tecaf ac roedd y Grŵp Rhanddeiliad yn cefnogi'r gwasanaeth risg isel (Band 1).

48. Ar ôl ystyried y model a barn rhanddeiliad yn fanwl, rydym o'r farn mai'r dull arfaethedig hwn yw'r opsiwn a ffefrir ac mae'r cynigion wedi'u seilio ar yr opsiwn hwn.

**<u>Opsiwn C – Model cyfradd yr awr</u>**

**Creu model lle y byddai ffi ar gyfradd yr awr yn cael ei chodi am bob swyddogaeth trwyddedu morol.**

49. Byddai model cyfradd yr awr yn cymhwyso tâl cyfradd yr awr a bennwyd ymlaen llaw er mwyn adennill holl gostau'r awdurdod trwyddedu, heb derfynau na ffioedd sefydlog.

50. Yr opsiwn hwn fyddai'n cynnig y dull mwyaf cywir a chadarn o ddarparu system o adennill costau llawn i'r awdurdod trwyddedu. Byddai codi tâl yn ôl cyfradd yr awr yn sicrhau, mor agos â phosibl, y câi'r costau gwirioneddol eu hadennill, fesul achos.

51. Ystyrir bod costau cyfradd yr awr Band 3 yn deg gan fod hyn yn ei gwneud yn bosibl i gost wirioneddol penderfynu ar gais gael ei hadennill, gan gyfyngu ar y risg o ddiffyg incwm i'r awdurdod trwyddedu. Mae'n anodd mesur yr adnodd sydd ei angen i benderfynu ar brosiectau Band 3 yn gywir oherwydd eu natur amrywiol iawn e.e. graddfa, lleoliad a'r defnydd o dechnoleg newydd.

52. Fodd bynnag, ar gyfer llawer o weithgareddau trwyddedu nodweddiadol ystyrir y byddai system o'r fath yn gosod gormod o faich gweinyddol ar yr awdurdod trwyddedu o'i hystyried yn erbyn cost wirioneddol y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu – o ran yr amser a dreulir yn rhoi dyfynbrisiau o gostau, yn paratoi anfonebau ac yn ymdrin â thaliadau. Byddai'r baich gweinyddol ychwanegol hwn hefyd yn cael effaith negyddol ar gwsmeriaid gan y byddai'r costau hynny'n cael eu trosglwyddo i gwsmeriaid.

53. Mae'r dull hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod trwyddedu gofnodi'r amser a dreulir yn cyflawni swyddogaethau trwyddedu morol yn gywir ac, felly, byddai angen sefydlu system cofnodi amser fwy datblygedig.

54. Ar gyfer llawer o'r gweithgareddau nodweddiadol nad ydynt yn ymwneud ag AEA gall Cyfoeth Naturiol Cymru gael mwy o sicrwydd o ran faint o adnoddau sydd eu hangen i wneud penderfyniad trwyddedu, sy'n golygu y byddai ffi sefydlog gymesur yn dderbyniol ac yn haws i'w gweinyddu na chodi tâl ar gyfradd yr awr. Byddai hefyd yn rhoi mwy o sicrwydd i gwsmeriaid ynglŷn â'r costau trwyddedu cysylltiedig er mwyn asesu dichonoldeb ariannol unrhyw ddatblygiad neu brosiect risg isel y maent yn ei ystyried. Felly, nid ystyrir bod cyfradd yr awr yn briodol nac yn angenrheidiol o dan yr amgylchiadau hyn.

55. Er y byddai'r opsiwn hwn yn ei gwneud yn bosibl i gostau gael eu hadennill yn llawn yn y ffordd fwyaf cadarn, at ei gilydd, ystyrir y bydd yn anghymesur yn achos ceisiadau ar raddfa lai a cheisiadau mwy nodweddiadol ac fel y cyfryw ni ffefrir yr opsiwn hwn.

**<u>Casgliad</u>**

56. Gan ystyried barn rhanddeiliaid a dadansoddiad pellach o'r opsiynau gan y Grŵp Llywio Adolygu Ffioedd, mae'r cynnig yn yr ymgynghoriad hwn yn dilyn y model haenog (Opsiwn B).

57. Mae'r opsiwn hwn yn cynnig dull teg a chymesur o bennu ffioedd am yr amrywiaeth eang o weithgareddau y mae angen trwyddedau ar eu cyfer. Gall prosiectau amrywio'n fawr o ran graddfa, maint, cymhlethdod, pa mor arloesol ydynt ac ati. Gall y model hwn adlewyrchu pob cam o'r broses drwyddedu, gan ei gwneud yn bosibl i gostau gael eu hadennill yn ystod oes prosiect, lle y bo'n briodol, o'r cam cyn gwneud cais i'r cam monitro ôl-drwyddedu.

58. Byddai'r opsiwn hwn yn ei gwneud yn bosibl i'r awdurdod trwyddedu godi ffi am gostau gwirioneddol ar y cyfan, gan adlewyrchu costau'n gywir am brosiectau Band 3. Codir ffioedd sefydlog am weithgareddau risg is a gweithgareddau nodweddiadol (Band 1 a Band 2) lle mae costau yn is fel arfer yn haws i'w rhagweld.

| **Cwestiwn 3** |
| --- |
| A ydych yn cytuno mai Opsiwn B – y model haenog a ddylai gael ei gyflwyno fel y strwythur ffioedd a thaliadau newydd yng Nghymru?<br><br>Os 'Na', pa fodel rydych yn ei ffafrio, a pham?<br><br>(Defnyddiwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad i roi eich barn.) |

# Adran 2 – Ffioedd a Thaliadau Arfaethedig gan ddefnyddio'r Model Haenog (Opsiwn B)

## Trosolwg o'r Cynigion

59. Mae Adran 1 o'r ddogfen hon yn nodi'r opsiynau o ran model yr ystyriwyd eu defnyddio a'r dull gweithredu a ffefrir. Mae'r adran hon yn manylu ar y ffioedd a'r taliadau arfaethedig gan ddefnyddio'r model Haenog – cyfuniad o ffioedd sefydlog a chodi ar gyfradd yr awr.

60. Mae Tabl 2 isod yn rhoi crynodeb o'r holl ffioedd a thaliadau arfaethedig, ac yn eu cymharu â'r taliadau cyfredol. Disgrifir yn fanwl isod sut y cafodd y ffioedd eu pennu a chostau cyngor allanol.

61. Ceir dadansoddiad o gostau a manteision pob un o’r opsiynau a ystyriwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft sy’n ddogfen sy’n ategu’r ymgynghoriad hwn.

**Tabl 2: Crynodeb o’r holl ffioedd a thaliadau a’u cymharu â’r ffioedd presennol (heb gynnwys TAW)**

| Adran o’r Model | Pecyn gwaith/Gwasanaeth | Ffi Gyfredol (amcangyfrif) | Y Math o Ffi a Gynigir | Y Ffi a Gynigir | Cyngor Allanol (yn seiliedig ar y data gorau sydd ar gael) |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyn Gwneud Cais | Ymholiadau Cyffredinol (hyd at 2 awr) | Dim Ffi | Dim Ffi | Dim Ffi | Dd/G |
| | Sgrinio | Dim Ffi | Ffi Sefydlog | £600 | Dd/G |
| | Cwmpasu | Dim Ffi | Cyfradd yr Awr a chostau cyngor allanol | £120 yr awr<br><br>(amcangyfrif o 15 awr - £1,800) | 21 awr |
| | Sgrinio a Chwmpasu | Dim Ffi | Cyfradd yr Awr a chostau cyngor allanol | £120 yr awr<br><br>(amcangyfrif o 16 awr - £1,920) | 21 |
| | Cyngor pwrpasol cyn gwneud cais | Dim Ffi | Cyfradd yr Awr a chostau cyngor allanol | £120 yr awr<br><br>(prosiectau safonol amcangyfrif o 10 awr - £1,200<br><br>Prosiectau sylweddol amcangyfrif o 75 awr - hyd at £9,000) | Wedi’i arwain gan y cwsmer |
| | Adolygu Datganiadau Amgylcheddol | Dim ffi – ni chynigir y gwasanaeth ar hyn o bryd. | Cyfradd yr Awr a chostau cyngor allanol | £120 yr awr<br><br>(amcangyfrif o hyd at 30 awr fesul Datganiad Amgylcheddol, sy’n cyfateb i £3,600) | 46 awr |
| | Ffioedd dadansoddi samplau o waddodion | Cânt eu cynnwys yn ffi’r cais. | Cyfradd yr Awr a Chostau cyngor allanol | £420 | 7 awr ynghyd â chostau samplau |
| Cais Ffurfiol | Band 1 – Risg Isel | £83 - £715 Mae Tâl | Ffi Sefydlog | £600 | Dd/G |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Atodol Sensitifrwydd Amgylcheddol hefyd yn daladwy yn y rhan fwyaf o achosion £275* | | | |
| | Band 2 – Achosion nad ydynt yn Gymhleth | £127 - £22,050<br><br>Mae Tâl Atodol Sensitifrwydd Amgylcheddol hefyd yn daladwy yn y rhan fwyaf o achosion £275 – £2, 750* | Cyfradd yr Awr a Chostau cyngor allanol | £1920 | 3⁺ |
| | Band 3 – Achosion Cymhleth | £2,275 - £82,150<br><br>Mae Tâl Atodol Sensitifrwydd Amgylcheddol hefyd yn daladwy yn y rhan fwyaf o achosion £275 – £2, 750* | Cyfradd yr Awr a chostau cyngor allanol | £120 yr awr<br><br>(Prosiectau safonol - amcangyfrif o 140 awr - £16,800<br><br>Prosiectau sylweddol - amcangyfrif o 1000 awr - £120,000) | 36 |
| **Ôl-drwyddedu** | Trafodaethau Ôl-drwyddedu | Dim Ffi | Cyfradd yr Awr a chostau cyngor allanol | £120 yr awr<br><br>Safonol – amcangyfrif o 15 awr - £1800<br><br>Sylweddol – amcangyfrif o 375 awr – £45,000) | Wedi'i arwain gan y cwsmer |
| | Cyflawni Amodau Band 1 a 2 | Dim Ffi | Cyfradd yr Awr a Chostau cyngor allanol | £480 | 2⁺ |
| | Cyflawni Amodau Band 3 (fesul achos trwydded e.e. mwy nag un drafodaeth) | Dim Ffi | Cyfradd yr awr neu drefniant pwrpasol â'r cwsmer ynghyd â chostau cyngor allanol | £120 yr awr<br><br>Safonol – amcangyfrif o 12 awr - £1,440<br><br>Sylweddol – amcangyfrif o 375 awr – £45,000) | 15 |
| | Monitro | Ar gyfer prosiectau | Cyfradd yr awr neu drefniant pwrpasol | £120 yr awr | 10 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | AEA<br><br>Carthu a Gwaredu Cyfalaf: £3,375 - £32,625<br>Cynnal a Chadw: £2,740 - £26,065<br><br>Adeiladu: £0 – £27,065<br><br>Ynni Adnewyddadwy £1,100 - £8,387<br><br>Prosiectau nad ydynt yn cynnwys AEA: Dim Ffi | â’r cwsmer ynghyd â chostau cyngor allanol | (Amcangyfrif o 6 awr - £720) | |
| | Amrywiad 0 | Dim Ffi | Heb ei filio | Dim Ffi | Dd/G |
| | Amrywiad 1 Newidiadau gweinyddol | Dim Ffi | Cyfradd yr Awr a Chostau cyngor allanol | £240 | Dd/G |
| | Amrywiad 2 Newidiadau cyffredinol | Dim Ffi | Cyfradd yr Awr a Chostau cyngor allanol | £480 | 2⁺ |
| | Amrywiad 3 Newidiadau cymhleth | Ni ellir codi tâl am amrywiadau ar hyn o bryd, felly mae angen cais newydd: £127 - £82,150 | Cyfradd yr Awr a chostau cyngor allanol | £120 yr awr<br><br>(Amcangyfrif o 60 awr - £7,200) | 36 |
| | Trosglwyddo trwydded | Dim Ffi | Cyfradd yr Awr a Chostau cyngor allanol | £480 | Dd/G |
| | | | | | |

**Mae Tâl Atodol Sensitifrwydd Amgylcheddol yn daladwy os yw’r gwaith adeiladu neu’r gweithgarwch gwaredu deunydd a garthwyd mewn ardal amgylcheddol sensitif megis Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA), Safle Ramsar neu Safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig (SoDdGA) neu’n agos at ardal o’r fath).*

*Gallai costau gwirioneddol cyngor allanol amrywio’n sylweddol a mynd dros yr oriau a nodir yma. Bydd swyddogion achos yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf am gostau cyngor allanol i gwsmeriaid.*

*⁺ Ar gyfer y rhan fwyaf o’r gweithgareddau hyn ni fyddai cyngor allanol yn cael ei geisio. Fodd bynnag, mae’r ffigurau hyn yn rhoi costau dangosol cyngor allanol, pe bai angen.*

## Cyfradd yr awr

62. Y gyfradd yr awr a gynigir am gostau'r awdurdod trwyddedu gan Cyfoeth Naturiol Cymru yw £120. Nid yw TAW yn daladwy ar y tâl hwn.

63. Ceir dadansoddiad sy'n nodi costau darparu'r gwasanaeth a sut y cyfrifwyd y gyfradd yr awr a gynigir yn **Atodiad 2**. Yn gryno, caiff cost y gwasanaeth ei rannu â nifer yr oriau gweithiwr achos y flwyddyn sydd ar gael.

64. Bydd swyddogion achos yn rhoi amcangyfrifon ymlaen llaw os codir cyfradd yr awr. Ni fydd yr awdurdod trwyddedu yn rhwym wrth yr amcangyfrif a roddwyd. Os bydd y costau'n nesáu at yr amcangyfrif gwreiddiol ac yn debygol o fynd y tu hwnt iddo, bydd swyddogion achos yn hysbysu'r cwsmer ac yn rhoi amcangyfrif arall i'w gwneud yn bosibl i'r penderfyniad gael ei gwblhau.

## Costau cyngor allanol

65. Os bydd angen cyngor neu ddadansoddiad mewn maes penodol na all Cyfoeth Naturiol Cymru ei roi'n fewnol, weithiau bydd costau cyngor allanol ynghlwm. Byddai cyngor allanol yn cael ei geisio ar gyfer ceisiadau Band 3 yn bennaf. Ar gyfer ceisiadau Band 1 a'r rhan fwyaf o geisiadau Band 2, ni fydd angen cyngor allanol y codir tâl amdano.

66. Ceisir cyngor allanol gan Cefas fel arfer, ond nid bob tro. Mae ffioedd Cefas wedi'u defnyddio i roi amcan o'r costau tebygol i gwsmeriaid gan mai gwasanaeth Cefas a ddefnyddir gan amlaf. Mae costau Cefas yn amrywio o £78.10 i £119.76 yr awr ar hyn o bryd ac maent yn cynnwys TAW, y gellir ei chodi am gyngor allanol. Bydd y gyfradd yr awr yn dibynnu ar radd y staff sy'n ymgymryd â'r gwaith. Gall ffioedd Cefas newid a chânt eu hadolygu'n flynyddol.

67. Pan fo angen cyngor allanol, bydd y swyddog achos yn trafod hyn â'r cwsmer. Caiff dyfynbris ei roi am bob pecyn gwaith. Fel arall, gellir rhoi blaendal i Cyfoeth Naturiol Cymru am gostau cyngor allanol, sy'n cwmpasu sawl pecyn gwaith. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn hysbysu'r cwsmer pan fydd y taliad hwn yn nesáu at y terfyn. Dyna'r dull gweithredu mwyaf priodol yn aml ar gyfer prosiectau ar raddfa fwy, neu wasanaethau pwrpasol cyn gwneud cais lle bydd sawl cais am becynnau gwaith sy'n gofyn am gyngor allanol y gellir codi tâl amdano.

68. Câi'r costau hyn eu trosglwyddo'n uniongyrchol i'r cwsmer a chaiff dadansoddiad clir o gostau ei roi.

69. Mae costau cyngor allanol yn amrywio'n fawr iawn oherwydd sawl ffactor gan gynnwys lleoliad daearyddol a math o weithgarwch. Mae cyngor a geisir oddi wrth Cefas hefyd wedi'i dargedu at faterion sy'n benodol i'r cais neu'r pecyn gwaith hwnnw. Heblaw am gost cael dyfynbris, ni fyddai'r Tîm Trwyddedu Morol yn ceisio cyngor allanol y gellir codi tâl amdano nes bod y cwsmer wedi cytuno i hynny'n ysgrifenedig.

70. Ni lwyddodd y Tîm Trwyddedu Morol i ddarparu tystiolaeth glir o gostau cyngor allanol. Cafwyd data gan y Sefydliad Rheoli Morol a chan ddefnyddio ei ddata cyfyngedig ei hun rhoddir amcangyfrif o gostau posibl cyngor allanol fel y'u hamlinellir yn Nhabl 2 uchod. Fodd bynnag, dylid nodi y gallai costau ac oriau ar gyfer cyngor allanol yng Nghymru fod yn wahanol iawn.

## Anfonebu a thalu

71. Caiff ffioedd sefydlog eu talu ymlaen llaw a chaiff ffioedd cyfradd yr awr eu hanfonebu'n fisol, neu fel y cytunwyd â'r cwsmer. Lle y bo'n briodol, gellir gofyn am adneuon ar gyfer pecynnau gwaith y codir tâl ar gyfradd yr awr amdanynt.

## Costau teithio

72. Nid yw'r Tîm Trwyddedu Morol yn teithio ar gyfer cyfarfodydd gwaith achos fel arfer. Os bydd angen mynd i gyfarfod, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried cynnal y cyfarfod yn swyddfa leol y Swyddog Trwyddedu, sy'n debygol o fod yng Nghaerdydd neu Abertawe. Gellir cynnig cyfarfodydd Skype hefyd, yn ogystal â mynd i'r afael â materion drwy ohebiaeth neu dros y ffôn. Lle mae teithio yn hanfodol, caiff hyn ei drafod â'r cwsmer ymlaen llaw, a chytuno arno, ac yna caiff tâl am yr amser a dreulir yn teithio ei godi ar y cwsmer. Fodd bynnag, ni chaiff tâl ei godi ar y cwsmer am gostau teithio a chynhaliaeth, megis tocynnau trên.

73. **Costau Hysbysebu**

Mae'r rhan fwyaf o geisiadau ffurfiol yn gofyn am hysbysebion a gall y costau hyn amrywio'n fawr. Amcangyfrifir costau o tua £48,000 - £78,000 y flwyddyn ar gyfer pob cais. Noder bod y costau hysbysebu hyn yn cael eu trosglwyddo'n uniongyrchol oddi wrth y cyhoeddwr i'r cwsmer ac nad ydynt wedi'u cynnwys yn y costau cyffredinol yn y ddogfen hon.

**Cwestiwn 4**

A oes unrhyw ffactorau eraill y dylid eu hystyried wrth benderfynu ar lefel y ffioedd?

(Defnyddiwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad i roi eich barn.)

# Ffioedd a thaliadau a gynigir - dadansoddiad yn ôl yr Adran o'r Model

## Cyn gwneud cais

74. Bydd y system trwyddedu morol yng Nghymru wedi'i blaen-lwytho a bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnig gwasanaeth cadarn cyn gwneud cais. Drwy ganiatáu i Cyfoeth Naturiol Cymru godi tâl am y gwasanaeth cyn gwneud cais bydd mwy o weithredwyr yn gallu cael adborth anffurfiol cyn bod yn rhan o'r broses gwneud cais ffurfiol. Po fwyaf o waith y gellir ei wneud ymlaen llaw ar y cam cyn gwneud cais i ddatrys problemau y lleiaf o amser a gaiff ei dreulio ar y cam gwneud cais. Wrth gwrs, ni fydd angen mynd drwy gam cyn gwneud cais ar gyfer pob prosiect, ac mae'n gam dewisol.

75. Nodir y gwasanaethau sydd ar gael a'r costau cysylltiedig yn ystod y cam cyn gwneud cais, ar wahân i ymholiadau cyffredinol ac opsiynau sgrinio yn Nhabl 2. Darperir gwasanaethau cyn gwneud cais mewn perthynas â DMMA a'r Rheoliadau Gwaith Morol.

### Ymholiadau Cyffredinol

76. Caiff ymholiadau cyffredinol cyn gwneud cais eu cwmpasu gan ddwy awr o gyngor heb ei filio. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn anelu at ymateb i ymholiadau cyffredinol o fewn 10 diwrnod gwaith. Enghreifftiau o waith sydd wedi'i gynnwys yn y maes hwn yw: cadarnhau a oes gweithgarwch yn drwyddedadwy, rhoi arweiniad ar y broses trwyddedu morol a'r ffurflenni cais, y ffioedd a'r canllawiau perthnasol. Ni fyddai'r cyngor cyffredinol hwn yn cynnwys mynd i gyfarfodydd na cheisio cyngor technegol sy'n benodol i'r prosiect dan sylw. Byddai hyn yn rhan o'r cam cyn gwneud cais pwrpasol yn syth. Caiff cwsmeriaid eu hysbysu ymlaen llaw pan gaiff taliadau eu codi a bydd swyddogion achos Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynghori ar sail achos unigol.

77. Ar ôl dwy awr, bydd unrhyw gyngor arall cyn gwneud cais yn dod o dan y gwasanaeth gwneud cais pwrpasol ac felly caiff tâl ei godi amdano ar gyfradd yr awr. Yn seiliedig ar ddata Cyfoeth Naturiol Cymru ymdrinnir â'r mwyafrif llethol o ymholiadau cyffredinol cyn gwneud cais o fewn dwy awr.

### Barn Sgrinio

78. Caiff ffi sefydlog o **£600** ei chodi am roi barn sgrinio o dan y Rheoliadau Gwaith Morol yn seiliedig ar bum awr o amser swyddog achos.

### Barn Cwmpasu

79. Caiff tâl ar gyfradd yr awr o **£120** ei godi am roi barn cwmpasu o dan y Rheoliadau Gwaith Morol. Disgwylir y gallai'r amser penderfynu amrywio

rhwng 5 a 24 awr, gydag amser prosesu o 15 awr ar gyfartaledd (sy'n cyfateb i £1,800).

**Barn Sgrinio a Chwmpasu**

80. Caiff tâl ar gyfradd yr awr o **£120** ei godi am roi barn Sgrinio a Chwmpasu o dan y Rheoliadau Gwaith Morol. Disgwylir y gallai'r amser penderfynu amrywio rhwng 6 a 25 awr, gydag amser prosesu o 16 awr ar gyfartaledd (sy'n cyfateb i £1,920). Yn achos ymarfer Sgrinio a Chwmpasu ar y cyd, pan fydd y gwaith sgrinio yn nodi nad oes angen cynnal A AEA dim ond Barn Sgrinio a ddarperir. Caiff y ffi sefydlog am farn Sgrinio (**£600**) ei chodi am hyn.

**Cyngor pwrpasol cyn gwneud cais**

81. Mae'r gwasanaeth pwrpasol cyn gwneud cais yn agored i bob defnyddiwr y gwasanaeth trwyddedu morol.

82. Mae'r gwasanaethau a ddarperir yn debygol o gael eu harwain gan y cwsmer, yn dibynnu ar ofynion penodol prosiect. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn trafod y gwasanaethau sydd eu hangen â darpar gwsmeriaid er mwyn llunio gwasanaeth pwrpasol ac addas cyn gwneud cais.

83. Mae'r mathau o weithgareddau y byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn disgwyl eu cynnig yn cynnwys:

- Cyfarfodydd
- Hwyluso cyfarfodydd â chynghorwyr perthnasol i ddatrys problemau technegol cyn bod cais ffurfiol yn cael ei wneud, lle y bo angen
- Cyngor anffurfiol
- Gofynion monitro a data
- Unrhyw gyswllt sy'n mynd y tu hwnt i gwmpas ymholiadau cyffredinol.

84. Cynigir y caiff tâl ei godi am gyngor pwrpasol cyn gwneud cais ar gyfradd yr awr o **£120**. O ran prosiectau safonol, amcangyfrifir bod angen tua 10 awr ar gyfer y cam cyn gwneud cais (sy'n cyfateb i £1,200) ac o ran prosiectau mwy sylweddol gallai fod angen hyd at 75 awr (sy'n cyfateb i £9,000). Bydd faint o gyngor cyn gwneud cais a geisir yn amrywio gan y bydd hynny'n cael ei arwain gan y cwsmer.

**Adolygu Datganiadau Amgylcheddol**

85. Mae adolygu Datganiad Amgylcheddol drafft neu benodau o Ddatganiad Amgylcheddol, gan yr awdurdod trwyddedu yn wasanaeth a fydd ar gael i ymgeiswyr, cyn iddynt wneud cais. Caiff y gyfradd yr awr o **£120** ei chodi am y gwasanaeth hwn. Amcangyfrifir y gallai hyn fod tua 30 awr fesul Datganiad Amgylcheddol (sy'n cyfateb i £3,600). Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar ofynion y cwsmer.

**Samplu Gwaddodion – Ceisiadau am Garthu a Gwaredu**

86. Caiff cwsmeriaid eu hannog i gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer cynllun samplu mor fuan â phosibl cyn cyflwyno cais ffurfiol, lle y bydd angen samplu. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn hwyluso'r broses o lunio cynlluniau samplu gan Cefas ac unrhyw ddadansoddiad sydd ei angen ar y cwsmer.

87. Cynigir y dylid codi **£420** am y gwasanaeth hwn, yn seiliedig ar 3.5 awr o amser prosesu'r awdurdod trwyddedu. Caiff tâl ei godi am gostau cyngor allanol ar wahân, yn unol â Thabl 2 uchod. Caiff tâl ei godi hefyd am gostau samplu a dadansoddi, a fydd yn amrywio yn dibynnu ar y cynllun samplu pwrpasol ar gyfer y gwaith cysylltiedig. Caiff cwsmeriaid eu hysbysu am bob amcangyfrif o gostau ymlaen llaw.

88. Dylai cwsmeriaid ganiatáu o leiaf ddeufis i gwblhau'r broses hon. Mae'n rhaid i ddadansoddiad samplu gael ei gwblhau cyn y bydd yr awdurdod trwyddedu yn derbyn y cais.

| **Cwestiwn 5** |
|---|
| A ydych yn cytuno â'r cynigion ar gyfer y gwasanaethau cyn gwneud cais?<br>Pa wasanaethau y rhagwelwch y byddwch yn eu defnyddio?<br>A oes unrhyw wasanaethau eraill cyn gwneud cais yr hoffech eu gweld yn cael eu darparu?<br><br>(Defnyddiwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad i roi eich barn.) |

## Cais Ffurfiol

89. Caiff ceisiadau ffurfiol eu rhannu rhwng Band 1 – risg isel; Band 2 – heb fod yn gymhleth; a Band 3 – cymhleth. Diffinnir prosiect cymhleth fel un sy'n costio dros £1 filiwn a/neu brosiectau AEA, a chais am weithgareddau lluosog, er enghraifft, cynlluniau adeiladu mawr, prosiectau ynni adnewyddadwy morol a chodi agregau o wely'r môr. Felly diffinnir prosiectau nad ydynt yn gymhleth fel prosiectau sy'n costio llai na £1 filiwn a/neu brosiectau nad ydynt yn cynnwys AEA. Er enghraifft, prosiectau adeiladu, carthu at ddibenion cynnal a chadw a thynnu deunydd (nad ydynt yn dod o dan Fand 1 na Band 3).

**Band 1**

90. Diffinnir ceisiadau Band 1 fel rhai risg isel a byddant yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau gwahanol. Caiff proses drwyddedu briodol a chymesur ei chymhwyso at weithgareddau Band 1, er enghraifft, defnyddio trwyddedau templed safonol; ymgynghoriad byrrach neu dim ymgynghoriad ag ymgyngoreion mewnol ac allanol; defnyddio asesiadau templed ar gyfer gweithgareddau safonol megis samplau cipolwg ac ildio'r gofyniad i hysbysebu hysbysiad cyhoeddus mewn papur lleol.

91. Y gweithgareddau sy'n cael eu hystyried ar gyfer Band 1 ar hyn o bryd yw:

- Rhai gweithgareddau cynnal a chadw
- Bwiau adnabod, bwiau a physt angori
- Mân weithgareddau tynnu deunydd
- Carthu nad yw'n garthu mordwyol*
- Samplau cipolwg
- Defnyddio sgaffaldau
- Olrheinyddion a lliwurau
- Tyllau turio
- Mân waddodion/gwaddodion dros dro

*Mae'n debygol y bydd angen asesu ceisiadau am garthu nad yw'n garthu mordwyol o fewn Band 2 yn y lle cyntaf. Pan fydd y gweithgarwch wedi'i asesu'n llawn o fewn Band 2 ac na chodir unrhyw bryderon o ganlyniad i'r gweithrediad, caiff ceisiadau dilynol i adnewyddu'r drwydded eu trafod o fewn Band 1.

92. Efallai y caiff gweithgareddau ychwanegol eu hystyried ar gyfer Band 1 ar ôl cael adborth i'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn ac, ar ôl iddynt gael eu pennu, bwriedir parhau i adolygu gweithgareddau Band 1.

93. Gan ddefnyddio'r data sydd ar gael a llunio barn broffesiynol disgwylir i benderfyniadau ar geisiadau Band 1 drwy ddefnyddio proses ddiwygiedig gymryd tua phum awr.

94. Y ffi sefydlog a gynigir fydd **£600** ar gyfer pob cais Band 1. Byddai'r Tîm Trwyddedu Morol yn anelu at roi penderfyniad i gwsmeriaid trwydded o fewn 10 wythnos (neu 6 wythnos ar gyfer samplau cipolwg).

95. O ran ceisiadau Band 1 ni fyddai angen cyngor allanol ac felly ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i gwsmeriaid. Nid ystyrir y byddai ceisiadau lle mae angen cyngor allanol yn briodol ar gyfer y Band hwn.

| **Cwestiwn 6** |
|---|
| A ydych yn cytuno â'r gweithgareddau a gynigir o dan Fand 1? |
| Os nad ydych yn cytuno, a allwch roi tystiolaeth i ategu argymhellion? |
| (Defnyddiwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad i roi eich barn.) |

**Band 2**

96. Diffinnir ceisiadau Band 2 fel rhai nad ydynt yn gymhleth (nad ydynt yn cynnwys AEA ac sydd ar gyfer prosiectau sy'n costio llai na £1 filiwn). Er enghraifft, prosiectau adeiladu, carthu at ddibenion cynnal a chadw a thynnu deunydd (nad ydynt yn dod o dan Fand 1 na Band 3).

97. Ar gyfer y ceisiadau hyn, caiff ffi sefydlog ei chodi, sy'n seiliedig ar ddadansoddiad o'r amser a gymerir gan yr awdurdod trwyddedu i brosesu'r cais, yn seiliedig ar ddata cofnodi amser hanesyddol sydd wedi cael eu hadolygu yn erbyn data procsi gan awdurdodau trwyddedu eraill, megis y Sefydliad Rheoli Morol, a thrwy arfer barn broffesiynol.

98. Mae'r ffi a godir yn seiliedig ar 16 awr o amser penderfynu ar gyfer cais Band 2.

99. Cynigir y dylid codi ffi sefydlog o **£1,920** ar gyfer ceisiadau Band 2.

100. Ar y cyfan, ni fyddai'r awdurdod trwyddedu yn disgwyl bod angen cyngor allanol ar geisiadau Band 2. Fodd bynnag, pe bai ei angen, byddai costau cyngor allanol yn cael eu cymhwyso'n unol â Thabl 2 uchod a pharagraffau 65 - 70.

**Band 3**

101. Diffinnir ceisiadau Band 3 fel rhai cymhleth er enghraifft cynlluniau adeiladu mawr, prosiectau ynni adnewyddadwy morol a chodi agregau o wely'r môr. Bydd y Band hwn hefyd yn cwmpasu gweithgareddau lluosog, er enghraifft, adeiladu ynghyd â charthu.

102. Gall amseroedd penderfynu ar gyfer prosiectau Band 3 amrywio'n sylweddol. Amcangyfrifir y byddai'n cymryd 140 awr i benderfynu ar y rhan fwyaf o geisiadau Band 3. Bydd y swyddog achos yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gwsmeriaid ynglŷn â'r nifer debygol o oriau wrth i'r broses fynd rhagddi. Rhagwelir y bydd defnyddio'r gwasanaeth cyn gwneud cais yn lleihau nifer yr oriau ar y cam cais ffurfiol.

103. Fodd bynnag, mewn nifer o achosion, gallai'r terfyn amser hwn fod dipyn yn fwy. Gall hyn gynnwys er enghraifft technolegau newydd, prosiectau seilwaith o bwys cenedlaethol, neu'r rhai mewn ardaloedd sensitif iawn, lle mae'r oriau a dreuliwyd y prosesu'r cais wedi mynd dros 1000 awr.

104. Ar gyfer yr holl geisiadau hyn, codir tâl ar gyfradd yr awr o **£120**. Byddai costau cyngor allanol yn cael eu cymhwyso'n unol â Thabl 2 uchod a pharagraffau 65 - 70.

105. Ar gyfer y rhan fwyaf o brosiectau Band 3, amcangyfrifir y byddai'n cymryd tua 140 awr i benderfynu arnynt (sy'n cyfateb i £16,800). O ran prosiectau Band 3 sylweddol, gallai gymryd tua 1000 awr i benderfynu arnynt (sy'n cyfateb i £120,000).

106. Ni fydd unrhyw derfyn ar y gyfradd yr awr nac ar y costau am gyngor allanol, ond bydd swyddogion achos yn rhoi amcangyfrifon ymlaen llawn a gwybodaeth reolaidd am gostau i gwsmeriaid.

## Gwaith Ôl-drwyddedu

107. Ar ôl i drwydded gael ei rhoi, efallai y bydd pecynnau gwaith ôl-drwyddedu y bydd yr awdurdod trwyddedu yn ymgymryd â hwy. Gall hyn gynnwys cyflawni amodau trwyddedu, prosesu adroddiadau monitro a gweinyddu amrywiadau i drwyddedau ond nid yw'n gyfyngedig i hynny.

### Trafodaethau Ôl-drwyddedu

108. Mae'r awdurdod trwyddedu yn aml yn rhan o drafodaethau ôl-drwyddedu â Deiliaid Trwyddedau. Gall hyn gynnwys trafodaethau a chasglu barn ymgyngoreion yn anffurfiol ynghylch newidiadau arfaethedig i drwydded a gofynion monitro, ymhlith pynciau eraill.

109. Cynigir y caiff tâl ar gyfradd yr awr o **£120** ei godi am y gwasanaeth hwn, sy'n debyg i'r hyn a godir am y gwasanaeth pwrpasol cyn gwneud cais.

110. Ar y cyfan, amcangyfrifir y byddai'n cymryd tua 15 awr i benderfynu ar gais (sy'n cyfateb i £1,800). O ran prosiectau/pecynnau gwaith sylweddol, gallai gymryd tua 375 awr (sy'n cyfateb i £45,000).

111. Byddai costau cyngor allanol yn cael eu cymhwyso'n unol â Thabl 2 a pharagraffau 65 – 70.

112. Bydd swyddogion achos yn rhoi amcangyfrifon ymlaen llaw a gwybodaeth reolaidd am gostau.

### Cyflawni Amodau

113. Mae gan drwyddedau morol penodol amodau y mae angen eu cyflawni dros oes y drwydded. Caiff y rhain eu prosesu a'u cymeradwyo gan yr awdurdod trwyddedu, yn aml mewn ymgynghoriad ag ymgyngoreion perthnasol.

114. Ar gyfer ceisiadau sy'n dod o dan Fand 1 a Band 2, caiff ffi sefydlog untro o £480, sy'n cyfateb i bedair awr, ei chodi am gyflawni pob un o amodau'r drwydded.

115. Caiff tâl ar gyfradd yr awr o **£120** ei godi am amodau y mae angen eu cyflawni o dan drwydded Band 3, a hynny oherwydd natur yr amodau ar drwydded Band 3, sydd, yn aml, yn gymhleth, a all ofyn am gryn dipyn o adnoddau gan yr awdurdod trwyddedu. Ar gyfer y rhan fwyaf o brosiectau Band 3, amcangyfrifir y byddai angen tua 12 awr o adnoddau'r awdurdod trwyddedu (sy'n cyfateb i £1,440). Ar gyfer prosiectau Band 3 sylweddol, gallai fod angen tua 375 awr (sy'n cyfateb i £45,000).

116. Byddai costau cyngor allanol yn cael eu cymhwyso'n unol â Thabl 2 a pharagraffau 65 - 70.

**Gofynion Monitro**

117. Efallai y bydd yn ofynnol cyflwyno adroddiadau monitro yn unol ag amodau ar drwydded forol er mwyn sicrhau nad yw gweithgarwch yn cael effaith sylweddol ar nodweddion sy'n achos pryder. Bydd amlder cyflwyno adroddiadau monitro yn dibynnu ar lefel y pryder a'r risg sy'n gysylltiedig â'r gweithgarwch, a gall amrywio o adroddiadau wythnosol i adroddiadau blynyddol.

118. Ar gyfer pob trwydded, caiff y gyfradd yr awr o **£120** ei chodi ar gyfer pob pecyn gwaith monitro. Yn y rhan fwyaf o achosion, amcangyfrifir y bydd angen chwe awr o amser yr awdurdod trwyddedu (sy'n cyfateb i £720). Byddai costau cyngor allanol yn cael eu cymhwyso'n unol â Thabl 2 a pharagraffau 65 – 70.

119. Ni fydd unrhyw derfyn ar y gyfradd yr awr nac ar y costau am gyngor allanol ond bydd swyddogion achos yn rhoi amcangyfrifon ymlaen llaw a gwybodaeth reolaidd am gostau.

120. Lle y bo'n briodol gall yr Awdurdod Trwyddedu ymrwymo i drefniant penodol â Deiliad Trwydded i brosesu gofynion monitro. Er enghraifft, adroddiadau monitro blynyddol - mae'n rhaid i Ddeiliaid Trwydded gyflwyno adroddiad monitro blynyddol yn unol â'r fanyleb y cytunwyd arni bob blwyddyn y mae'r drwydded yn fyw. Ar ôl y 2-3 blwyddyn gyntaf o fonitro, efallai y bydd yn amlwg nad oes fawr ddim newid yn yr amser a gymerir i brosesu ac asesu'r adroddiadau. Felly, gellid cymhwyso ffi ostyngol at bob adroddiad monitro blynyddol tra pery'r drwydded. Fodd bynnag, pe bai'r adroddiad monitro yn tynnu sylw at unrhyw gymhlethdodau/materion sylweddol neu at y ffaith nad yw'r safle yn gweithredu yn y modd a ragwelwyd, byddai'r ffioedd yn mynd yn ôl i gyfradd yr awr.

**Costau Cydymffurfiaeth Ymchwiliadau - rôl Tîm Gweithrediadau Llywodraeth Cymru**

121. Ni fydd unrhyw newid i'r dull gweithredu presennol. Bydd y tîm gweithrediadau yn parhau i gynnal archwiliadau cydymffurfiaeth ar gyfer trwyddedu morol. Caiff archwiliadau eu blaenoriaethu drwy ddull gweithredu sy'n seiliedig ar risg, gyda mewnbwn gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Bwriadwn ystyried costau rôl cydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru fel rhan o adolygiad yn y dyfodol.

**Amrywio a Throsglwyddo**

122. Caiff cymysgedd o gyfradd yr awr o **£120** a ffioedd sefydlog ei gymhwyso ar gyfer amrywio a throsglwyddo, fel a ganlyn:

**Tabl 3 – Ffioedd Amrywio a Throsglwyddo**

| Math | Disgrifiad | Y Ffi a Gynigir |
|---|---|---|
| **Amrywiad 0** | Newid i'r drwydded o ganlyniad i gamau gweithredu Cyfoeth Naturiol Cymru. | Dim Ffi |
| **Amrywiad 1** | Newid gweinyddol – cais gan Ddeiliad y Drwydded i newid trwydded e.e. newid enw, cyfeiriad neu gontractwyr a throsglwyddo trwyddedau. | Ffi Sefydlog (yn seiliedig ar 2 awr) **£240** |
| **Amrywiad 2** | Newid cyffredinol – cais gan Ddeiliad y Drwydded i newid trwydded lle nad yw'n ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru ymgynghori neu lle nad oes angen ond ychydig o ymgynghori e.e. estyn trwydded. | Ffi Sefydlog (yn seiliedig ar 4 awr) **£480** ynghyd â chyngor allanol |
| **Amrywiad 3** | Newidiadau cymhleth - cais gan Ddeiliad y Drwydded i newid trwydded lle mae'n ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru ymgynghori â chynghorwyr perthnasol. | Cyfradd yr Awr **£120** yr awr ynghyd â chyngor allanol |
| **Trosglwyddo** | Trosglwyddo trwydded, drwy amrywiad, oddi wrth ddeiliad trwydded i berson arall. | Ffi Sefydlog (yn seiliedig ar 4 awr) **£480** |

123. Ni fyddai cyngor allanol yn cael ei geisio ar gyfer Amrywiad 1 na throsglwyddo trwydded, felly ni fyddai costau ychwanegol i gwsmeriaid.

124. Byddai costau cyngor allanol yn cael eu cymhwyso at Amrywiad 2 a 3 yn unol â'r costau a nodir yn Nhabl 2 uchod a pharagraffau 65 – 70.

125. Ni fyddai amrywiadau lle mae angen cyngor allanol yn cael eu hystyried yn briodol ar gyfer categori Amrywiad 1.

126. O ran Amrywiad 3, amcangyfrifir y gallai gymryd tua 60 awr i benderfynu ar gais (sy'n cyfateb i £7,200).

**Monitro Safleoedd Gwaredu**

127. Rydym yn cydnabod bod angen monitro ein safleoedd gwaredu yng Nghymru er mwyn deall yr effeithiau sy'n gysylltiedig â gwaredu deunydd yn y môr fel y gall y gweithgarwch gael ei reoleiddio'n briodol. Bwriadwn ystyried rhaglen fonitro ac unrhyw ffioedd cysylltiedig fel rhan o adolygiad yn y dyfodol.

**Cwestiwn 7**

A ydych yn cytuno â'r cynigion ar gyfer y pecynnau gwaith ôl-drwyddedu uchod?

Os nad ydych yn cytuno, a allwch roi tystiolaeth i ategu argymhellion?

(Defnyddiwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad i roi eich barn.)

## Diwygio Rheoliadau Trwyddedu Morol (Apelau Hysbysiadau) (Cymru) 2011

128. Diwygiodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Ran 4 o DMMA i roi pwerau ychwanegol i godi ffioedd. Mae'r diwygiadau hefyd yn estyn yr amgylchiadau lle y gall yr awdurdod trwyddedu, drwy hysbysiad, amrywio, atal neu ddiddymu'r drwydded.

129. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth fel y gall unrhyw berson y cyflwynir hysbysiad o'r fath iddo apelio yn erbyn yr hysbysiad hwnnw. Caiff y Rheoliadau Apelau Hysbysiadau presennol eu diwygio i ddarparu dull apelio. Y bwriad yw defnyddio'r un gweithdrefnau fel y'u nodir ar hyn o bryd yn y Rheoliadau Apelau Hysbysiadau. Ar hyn o bryd, y Tribiwnlys Haen Gyntaf sy'n gwrando ar Apelau Hysbysiadau ac er cysondeb â phob Apêl Hysbysiad, cynigir y bydd y dull gweithred hwn yn parhau.

130. Rydym wedi ystyried opsiynau amgen megis defnyddio Arolygiaeth Gynllunio Cymru i wrando ar yr apelau neu fod Gweinidogion Cymru yn gwrando'n uniongyrchol ar apelau. Fodd bynnag, gan fod dull apelio ar waith yn barod ar gyfer gwrando ar apelau hysbysiadau ac am y byddai'r apelau yn ychwanegiad bach at y dull presennol o apelio yn erbyn hysbysiad, rydym o'r farn mai cadw at ddull gweithredu cyson fydd fwyaf priodol ar gyfer yr apelau hysbysiadau newydd hyn.

| **Cwestiwn 8** |
|---|
| A ydych yn cytuno â'r cynigion ar gyfer ymdrin ag apelau hysbysiadau? |
| Os nad ydych yn cytuno, a allwch roi tystiolaeth i ategu argymhellion? |
| (Defnyddiwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad i roi eich barn.) |

# Adran 3 – Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

## Gosod Gofynion ynghylch Cyhoeddi Data

131. Mae rhanddeiliaid wedi codi ymholiadau ynglŷn â'r angen i bennu gofynion ynghylch cyhoeddi data a gesglir drwy'r broses trwyddedu morol.

132. Mae hwn yn faes cymhleth iawn ac mae problemau sylweddol ynghlwm wrth osod gofyniad. Ni chredwn mai'r ymgynghoriad hwn yw'r fforwm cywir i ystyried yr holl faterion sy'n codi yn y maes hwn neu ailddatgan y gwaith sylweddol a wnaed i ddod o hyd i atebion i'r maes hwn. Felly, nid ydym yn cynnig y dylid cyflwyno gofyniad ynglŷn â chyhoeddi data.

133. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i rannu a darparu data lle bynnag y bo modd, er mwyn lleihau costau a beichiau ar ddatblygwyr, yn ogystal â sicrhau y ceir y gwerth mwyaf posibl o'r data sy'n bodoli eisoes.

134. Rydym yn awyddus bod y data a gesglir gan y diwydiant at ddibenion rhoi caniatâd, monitro neu ddibenion eraill, sydd â gwerth ailddefnyddio, yn cael eu storio mewn archif diogel, hirdymor a'u bod ar gael mor eang â phosibl, mor gyflym â phosibl. Gall rhannu data o'r fath o leihau yr amser i gymerir i ymdrin â cheisiadau trwyddedu morol a'u costau yn y dyfodol . Byddem yn croesawu'ch barn ar y ffordd y gallem sicrhau bod mwy o ddata ar gael yng Nghymru i gefnogi'r system trwyddedu morol a'r system cynllunio morol.

135. Mae cwsmeriaid trwyddedu morol yn ddarostyngedig i ofynion Rheoliadau Trwyddedu Morol (Cofrestr o Wybodaeth Drwyddedu) (Cymru) 2011 a bydd yr awdurdod trwyddedu yn darparu gwybodaeth, ar gais, yn unol â'r Rheoliadau hynny.

136. Yng Nghymru, byddwn yn parhau i annog cwsmeriaid trwyddedu morol i rannu eu data, pryd bynnag y bo modd. Er mwyn cynyddu faint o ddata sydd ar gael yn ardal forol Cymru, rydym yn annog gweithredwyr i ddarparu data i'n Porth Cynllunio Morol:
http://lle.gov.wales/apps/marineportal/#lat=52.5145&lon=-3.9111&z=8
Y bwriad yw datblygu ffynhonnell gynhwysfawr o wybodaeth a data morol dros amser yng Nghymru. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i ddarparu gwybodaeth am bob trwydded a roddir a chyfeirio at unrhyw wybodaeth ategol a gyflwynwyd ar y cyd â cheisiadau am drwydded forol sydd ar gael ar y Porth.

| **Cwestiwn 9** |
|---|
| A ydych yn cytuno â'n dull o rannu a darparu data, pryd bynnag y bo modd?<br><br>A oes gennych unrhyw sylwadau ar y cam hwn ynghylch pa drefniadau y dylem eu hystyried e.e. a ddylai cyhoeddi data fod yn orfodol neu'n wirfoddol?<br><br>(Defnyddiwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad i roi eich barn.) |

## Amlder Adolygu

137. Mae'n bwysig ein bod yn monitro perfformiad ac yn gwerthuso llwyddiant yr Adolygiad o Ffioedd. Mae'n annhebygol y byddwn yn cael y ffioedd yn iawn y tro cyntaf ac felly bydd angen i ni eu hadolygu fel rhan o'n gwelliant parhaus.

138. Bwriadwn gynnal adolygiad ffurfiol ar ôl tair blynedd a chynigiwn y dylid cynnal 'gwiriad synnwyr' bob blwyddyn i adolygu data a thystiolaeth newydd, cloriannu a dysgu gwersi. Mae'r amserlen hon yn rhoi cyfle i ganlyniadau a manteision gwelliant parhaus gael eu gwireddu.

139. O dan amgylchiadau eithriadol, byddwn yn ystyried yr angen am adolygiad ffurfiol yn gynt.

140. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i barhau i ymgysylltu'n gadarnhaol â rhanddeiliaid ynglŷn â ffioedd a thaliadau am drwyddedu morol (yn ogystal â materion trwyddedu morol ehangach). Bydd rhanddeiliaid yn cael cyfle i roi adborth a pharhau i helpu i lunio'r system trwyddedu morol yng Nghymru.

## Adolygu Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011

141. Mae nifer o weithgareddau trwyddedadwy yn rhai esempt o'r gofyniad i gael trwydded forol, er enghraifft, gweithrediadau pysgota, rhai enghreifftiau o waith cynnal a chadw harbwr, lansio llongau ac ati.

142. Drwy'r adolygiad o ffioedd trwyddedu morol, daeth yn amlwg bod angen adolygiad o esemptiadau er mwyn sicrhau bod gennym y cydbwysedd cywir o weithgareddau esempt a thrwyddedadwy. Ceir nifer o esemptiadau i'r gyfundrefn trwyddedu morol, a nodir ar wyneb DMMA ac yn y Gorchymyn Eithriadau. Rydym yn cynnig y dylid cynnal Adolygiad o Esemptiadau ar ôl i'r ffioedd newydd gael eu cyflwyno, er mwyn ystyried a oes angen diwygio'r gyfres bresennol o esemptiadau yng Nghymru o gwbl.

143. Bydd ymgynghoriad arall a mwy o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn digwydd yn y dyfodol. Yn y cyfamser, rydym yn awyddus i glywed eich safbwyntiau cychwynnol er mwyn llywio'r broses adolygu.

| **Cwestiwn 10** |
|---|
| Pa wybodaeth rydych am i ni ei hystyried er mwyn llywio adolygiad o esemptiadau trwyddedu morol yng Nghymru? |
| (Defnyddiwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad i roi eich barn.) |

## Y camau nesaf

144. Bydd Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal digwyddiad ym mis Hydref 2016 yn swyddfa Llywodraeth Cymru yng Nghaerdydd er mwyn cyflwyno'r cynigion yn yr ymgynghoriad i randdeiliaid. Bydd hyn yn rhoi cyfle i gael trafodaeth ac i ymholiadau gael eu codi a'u hateb. Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn bresennol yn y digwyddiad hwn anfonwch e-bost i fynegi'ch diddordeb i marineandfisherieslegislation@wales.gsi.gov.uk

145. Ar ôl adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad, caiff y ddeddfwriaeth a'r canllawiau terfynol eu drafftio a'r nod yw y caiff y ffioedd a thaliadau trwyddedu morol ac AEA newydd eu rhoi ar waith yn 2017. Caiff trefniadau trosiannol eu cyhoeddi ar dudalennau gwe Cyfoeth Naturiol Cymru.

Cyflwynwch eich ymatebion erbyn 28 Tachwedd 2016 er mwyn sicrhau y cânt eu hystyried.

**Cwestiwn 11**

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol drwy'r ddogfen hon. Os oes unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, mae croeso ichi fanteisio ar y cyfle i'w codi.

(Defnyddiwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad i roi eich barn.)

## Rhestr Atodiadau

**Atodiad 1** – Ffioedd a Thaliadau cyfredol
**Atodiad 2** – Dadansoddiad o'r gyfradd yr awr
**Atodiad 3** – Rhestr o Ymgyngoreion

## Atodiad 1

## Rheoliadau Trwyddedu Morol (Ffioedd am Geisiadau) (Cymru) 2011, Tablau Ffioedd:

Noder: ar gyfer prosiectau sy'n ymestyn i dir y tu allan i'r ardal drwyddedu forol mae "cost prosiect" ond yn cyfeirio at y rhan drwyddedadwy forol o'r prosiect.

**Prosiectau adeiladu *(DS* efallai y bydd tâl atodol sensitifrwydd amgylcheddol ychwanegol yn daladwy hefyd)***

| Band | Cost y prosiect (£) | Ffi (£) |
|---|---|---|
| 1 | 0 i 5,499 | 127 |
| 2 | 5,500 i 9,999 | 715 |
| 3 | 10,000 i 49,999 | 1,025 |
| 4 | 50,000 i 1,999,999 | 2,275 |
| 5 | 2 filiwn i 4,999,999 | 4,525 |
| 6 | 5 miliwn i 19,999,999 | 7,191 |
| 7 | 20 miliwn i 49,999,999 | 12,010 |
| 8 | 50 filiwn neu fwy | 38,650 |

**Tâl atodol sensitifrwydd amgylcheddol - *sy'n daladwy os yw'r gwaith adeiladu neu'r gweithgarwch gwaredu deunydd a garthwyd mewn ardal amgylcheddol sensitif megis Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA), Safle Ramsar neu Safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig (SoDdGA) neu'n agos at ardal o'r fath.***

| Band | Cost y prosiect (£) | Tâl atodol (£) |
|---|---|---|
| 1 | 5,500 i 9,999 | 275 |
| 2 | 10,000 i 49,999 | 575 |
| 3 | 50,000 i 1,999,999 | 950 |
| 4 | 2 filiwn i 4,999,999 | 1,350 |
| 5 | 5 miliwn i 19,999,999 | 1,605 |
| 6 | 20 miliwn i 49,999,999 | 1,720 |
| 7 | 50 filiwn neu fwy | 2,750 |

**Ffi Fonitro Flynyddol – *mae'n daladwy ar gyfer prosiectau sy'n destun Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol pan nodir bod angen eu monitro ar ôl rhoi trwydded***

| Band | Cost y prosiect | Ffi fonitro flynyddol (£) |
|---|---|---|
| 1 | 0 i 5,499 | 0 |
| 2 | 5,500 i 9,999 | 535 |
| 3 | 10,000 i 49,999 | 770 |
| 4 | 50,000 i 1,999,999 | 1,705 |
| 5 | 2 filiwn i 4,999,999 | 2,519 |
| 6 | 5 miliwn i 19,999,999 | 3,596 |
| 7 | 20 miliwn i 49,999,999 | 4,948 |
| 8 | 50 filiwn neu fwy | 27,055 |

**Gwaredu deunydd a garthwyd (ac eithrio at ddefnydd buddiol)**

| Band | Faint o ddeunydd a waredwyd (tunelli) | Ffi gwaredu deunydd carthu cychwynnol (£) | Ffi gwaredu deunydd carthu cynnal a chadw (£) |
|---|---|---|---|
| 1 | 0 i 9,999 | 4,500 | 3,650 |
| 2 | 10,000 i 49,999 | 9,100 | 7,225 |
| 3 | 50,000 i 99,999 | 12,800 | 9,950 |
| 4 | 100,000 i 499,999 | 19,850 | 15,950 |
| 5 | 500,000 i 999,999 | 28,850 | 22,050 |
| 6 | 1 filiwn neu fwy | 43,500 | 34,750 |

**Estyniadau i Drwyddedau Gwaredu deunydd a garthwyd**

| Band | Faint o ddeunydd a waredwyd (tunelli) | Ffi gwaredu deunydd carthu cychwynnol (£) | Ffi gwaredu deunydd carthu cynnal a chadw (£) |
|---|---|---|---|
| 1 | 0 i 9,999 | 850 | 725 |
| 2 | 10,000 i 49,999 | 1,825 | 1,450 |
| 3 | 50,000 i 99,999 | 2,400 | 1,950 |
| 4 | 100,000 i 499,999 | 3,300 | 2,550 |
| 5 | 500,000 i 999,999 | 4,850 | 3,550 |
| 6 | 1 filiwn neu fwy | 9,050 | 6,950 |

**Monitro Trwyddedau Gwaredu deunydd a garthwyd (Yn daladwy yn flynyddol)**

| Band | Faint o ddeunydd a waredwyd (tunelli) | Ffi gwaredu deunydd carthu cychwynnol (£) | Ffi gwaredu deunydd carthu cynnal a chadw (£) |
|---|---|---|---|
| 1 | 0 i 9,999 | 3,375 | 2,740 |
| 2 | 10,000 i 49,999 | 6,825 | 5,420 |
| 3 | 50,000 i 99,999 | 9,600 | 7,465 |
| 4 | 100,000 i 499,999 | 14,890 | 11,965 |
| 5 | 500,000 i 999,999 | 21,640 | 16,540 |
| 6 | 1 filiwn neu fwy | 32,625 | 26,065 |

**Gwaredu deunydd a garthwyd at ddefnydd buddiol *(D.S.* efallai y bydd tâl atodol sensitifrwydd amgylcheddol ychwanegol yn daladwy hefyd)***

| Band | Faint o ddeunydd a waredwyd (tunelli) | Ffi (£) |
|---|---|---|
| 1 | 0 i 9,999 | 715 |
| 2 | 10,000 i 999,999 | 2,275 |
| 3 | 1 filiwn neu fwy | 4,525 |

**Gwaredu gwastraff pysgod**

| Faint o ddeunydd a waredwyd (tunelli) | Ffi (£) |
|---|---|
| Unrhyw swm | 2,995 |

**Echdynnu mwynau drwy dreillio deunydd o wely'r môr**

| Cais | Ffi (£) | Ffi ychwanegol pan gynhelir ymchwiliad |
|---|---|---|
| Echdynnu mwynau drwy dreillio deunydd o wely'r môr | 27,500 | 15,000 |
| Ffi Fonitro Flynyddol | 6,500 | Dd/G |

**Prosiectau ynni adnewyddadwy ar y môr**

| Band | Gallu cynhyrchu (megawatiau) | Ffi (£) |
|---|---|---|
| 1 | 0 i 0.99 MW | 2,000 |
| 2 | 1 i 4.99 MW | 6,000 |
| 3 | 5 i 99 MW | 26,222 |
| 4 | 100 MW neu fwy | 38,650 |

**Monitro a rheoli Trwyddedau (Yn daladwy yn flynyddol)**

| Band | Gallu cynhyrchu (megawatiau) | Ffi (£) |
|---|---|---|
| 1 | 0 i 0.99 MW | 1,100 |
| 2 | 1 i 4.99 MW | 2,250 |
| 3 | 5 i 99 MW | 8,270 |
| 4 | 100 MW neu fwy | 8,387 |

**Dyddodi olrheinyddion a lliwurau**

| Cais | Ffi (£) |
|---|---|
| Dyddodi olrheinyddion | 83 |
| Dyddodi lliwurau | 83 |

**Angorfeydd a chymhorthion mordwyo**

| Cais | Ffi (£) |
|---|---|
| Angorfeydd syml | 127 |
| Cymhorthion mordwyo | 127 |

# Atodiad 2 – Dadansoddiad Cyfradd yr Awr

| Math o Gost | £ | CALl | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Costau Staff Uniongyrchol | 290,000.00 | 8 | Costau staff uniongyrchol sy'n ymwneud â chyflogau, pensiwn a chyfraniadau YG y tîm trwyddedu morol (1 arweinydd tîm a 7 swyddog trwyddedu) |
| Costau Staff Uniongyrchol | 25,000.00 | 0.7 | Tîm cymorth a datblygu trwyddedu tua 10% o gostau'r tîm Datblygu systemau a phrosesau o fewn y Gwasanaeth Trwyddedu. |
| Costau Staff Uniongyrchol | 4,000.00 | 0.1 | Tua 5% o dderbyniadau trwyddedau. I dderbyn, cofnodi, gweinyddu systemau cychwynnol ac ymdrin â ffioedd ar gyfer pob cais morol. |
| Costau Staff Uniongyrchol | 80,000.00 | 2 | Cynghorwyr polisi Rheoleiddio Morol |
| Costau Staff Uniongyrchol | 20,000.00 | 0.2 | Costau rheoli llinell - 20% Rheolwr Gwasanaeth Trwyddedu, > 5% arweinyddiaeth a chyfarwyddwr 20k .2 CALl |
| Costau Staff Uniongyrchol | 40,000.00 | 1 | Cyngor ardal - 1 CALl anstatudol DS, brasamcan yw hwn ac nid yw'n cynnwys cyngor gan Gorff Gwarchod Natur Statudol a ariennir drwy gymorth grant. |
| Costau Uniongyrchol nad ydynt yn Gostau Staff | 1,000.00 | | Cyngor Ymgynghoriaeth Allanol e.e. CEFAS yn seiliedig ar £250 y chwarter. Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgysylltu ag ymgynghorwyr er mwyn caffael cyngor technegol arbenigol h.y. nid ar ran y cwsmer. |
| | | | |
| Cyfanswm Costau Uniongyrchol | 460,000.00 | | Cyflogau, pensiwn ac Yswiriant Gwladol |
| Adennill gorbenion (yn seiliedig ar gostau uniongyrchol) | 253,793.00 | | Yn seiliedig ar nifer y staff - 12.00 CALl (e.e. TGCh, Cyllid, cyfleusterau, swyddfeydd, cynllunio corfforaethol ac ati) |
| Taliadau Cyllido | 32,200.00 | | Unrhyw asedau perthnasol a ddefnyddir wrth ddarparu'r gwasanaeth hwn. Wedi tybio 7% o gostau uniongyrchol (Dibrisiant asedau) |
| **Cyfanswm Cost y Gwasanaeth** | **745,993.00** | | **100% o'r gost** |
| **Cyfrifo Cyfradd yr Awr** | | | **Sylwadau** |
| Proffil Diwrnodau Gwaith (diwrnodau) | 220.00 | | Yn tybio 220 diwrnod gwaith fesul CALl, h.y. 40 diwrnod gwyliau a Gwyliau'r Banc |
| Oriau Safonol yr wythnos | 37.00 | | |
| Oriau Safonol y dydd | 7.40 | | |
| Nifer y CALlau | 7.00 | | Yn berthnasol i swyddogion trwyddedu yn unig |
| Diwrnodau Gwaith sydd ar gael ar gyfer Trwyddedu Morol | 1,540.00 | | Yn tybio 60% ar gyfer gwaith achosion |
| Oriau Gwaith sydd ar gael ar gyfer Trwyddedu Morol | 11,396.00 | | Ar gyfer staff Trwyddedu Uniongyrchol o fewn y tîm trwyddedu morol |
| | | | |
| Gwaith Adenilladwy ar gyfradd effeithlonrwydd o 60% | 6,838.00 | | Oriau achosion sydd ar gael |
| Llai oriau na ellir codi tâl yn eu cylch | 6,238.00 | | |
| **Cyfradd yr Awr y Dydd** | **£120.00** | | **Yn seiliedig ar adennill 100% o'r costau** |

## Atodiad 3 - Rhestr o Ymgyngoreion

| |
|---|
| A W J Marine |
| ABP De Cymru |
| Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Gogledd Iwerddon |
| Adran yr Amgylchedd, Pysgodfeydd a Materion Gwledig |
| Agma PLC |
| Anglesey Boat Company Limited |
| Airbus |
| Alun Griffiths (Contractors) Ltd |
| AMEC |
| Arolygiaeth Gynllunio |
| Arup |
| Asiantaeth yr Amgylchedd |
| Asiantaeth yr Arfordir a Gwylwyr y Glannau |
| Associated British Ports |
| Atkins Ltd |
| Awdurdod Diwydiant y Pysgod Môr |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru |
| Awdurdodau Harbwr Lleol yng Nghymru |
| Awdurdodau Heddlu Cymru |
| Bird Port, Casnewydd |
| Cadw |
| Canolfan Bywyd Gwyllt Morol Bae Ceredigion |
| Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu |
| Cardigan Bay Fishermen's Association |
| Carillion |
| Centrica |
| Clwb Hwylio Bae Trearddur |
| Clwb Hwylio Brenhinol Môn |
| Clwb Hwylio Caergybi |
| Clwb Mordeithio a Hwylio Monkstone |
| Coastnet |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru |
| Comisiwn y Diwydiannau Amgylcheddol |
| Comisiynwyr Harbwr Castell-nedd |
| Comisiynwyr Harbwr Saundersfoot |
| Costain Ltd |
| Cwmni Porthladd Bryste |
| Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur |
| Cydffederasiwn Diwydiant Prydain |

| |
|---|
| Cyfeillion y Ddaear Torfaen |
| Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Cyngor Dosbarth Gogledd Dyfnaint |
| Cyngor Gogledd Gwlad yr Haf |
| Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Cyngor Sir Ceredigion |
| Cyngor Sir Ddinbych |
| Cymdeithas Casglwyr Llaw Cilfach Tywyn |
| Cymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain |
| Cymdeithas Dal a Storio Carbon |
| Cymdeithas Garthu Ganolog |
| Cymdeithas Harbwr-Feistri'r DU |
| Cymdeithas Hwylio Cymru |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Cymdeithas Porthladdoedd Prydain |
| Cymdeithas Pysgod Cregyn Prydain Fawr |
| Cymdeithas Pysgotwyr Cymru |
| Cymdeithas y Pysgodfeydd Mewnndirol a'r Awdurdodau Cadwraeth |
| Cynrychiolwyr Prifysgolion Cymru |
| Cyswllt Amgylchedd Cymru |
| Dasic International Ltd |
| Dong Walney (UK) Ltd |
| Dŵr Cymru |
| E.ON Renewables |
| Ecospan Environmental Ltd |
| English Heritage |
| Far Offshore Renewables |
| Gateway Storage Company |
| Fiton Technologies International Ltd |
| Global Marine Systems Ltd |
| Grŵp Defnyddwyr a Datblygu Gwely'r Môr |
| Grŵp Porthladdoedd Cymru |
| Grŵp RPS |
| Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM |
| Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Pysgotwyr |
| Ffederasiwn Genweirwyr Môr Cymru |
| Ffederasiwn Morol Prydain |
| Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin |
| Fforwm Arfordir Sir Benfro |
| Harbwr-Feistr Conwy |
| Historic England |
| Holyhead Marina Ltd |
| Horizon Nuclear Power |
| J Murphy and Sons Ltd |
| Llanelli Sand Dredging Limited |

| |
|---|
| Marina Porth Tywyn |
| Marina Projects Ltd |
| Marine Energy Matters |
| Marine Energy Pembrokeshire |
| Marine Scotland |
| Marinenet |
| Morgan Sindall |
| Mouchel |
| Mykal Industries Ltd |
| Natural England |
| NERL Safeguarding |
| Network Rail |
| Neyland Yacht Havens Ltd |
| Npower |
| OFCOM |
| OFGEM |
| Oil & Gas UK |
| Partneriaeth Aber Afon Hafren |
| Porthladd Mostyn |
| Porthladd Penrhyn |
| Prif Borthladdoedd y DU a Chymdeithas Porthladdoedd Prydain |
| Prifysgol Bangor |
| Prifysgol Caerdydd |
| Pulse Tide |
| Pwyllgor Diogelu UK Cable (ICPC) |
| Pwyllgor Pysgodfeydd Gogledd-orllewin Lloegr |
| QinetiQ |
| Quay Fresh and Frozen Foods Ltd |
| Quay Marinas Ltd |
| Ramboll |
| Renewables UK Cymru |
| RNLI |
| Royal Haskoning |
| RSPB |
| RWE |
| Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig |
| Severn Sands Ltd |
| Siambr Forgludiant |
| St Modwen Developments Ltd |
| Stena Line Ports Ltd |
| Subsea Cables UK |
| Swyddog ACA Bae Ceredigion |
| Swyddog Bioamrywiaeth Lleol - Awdurdodau Lleol yng Nghymru |
| Swyddog Prosiect Ardaloedd Morol Gwarchodedig - Awdurdodau Lleol yng Nghymru |

| |
|---|
| Swyddogion AOHNEau – Awdurdodau Lleol yng Nghymru |
| Tidal Energy Limited |
| Tidal Lagoon Power PLC |
| Trident Energy Limited |
| Trinity House |
| Trysorlys EM |
| Un Llais Cymru |
| Undeb Amaethwyr Cymru |
| Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr |
| Westminster Dredging Company Ltd |
| Y Fenter Werdd Las |
| Y Gronfa Natur Fyd-eang |
| Y Gymdeithas Cadwraeth Forol |
| Y Gymdeithas Hwylio Frenhinol |
| Y Sefydliad Rheoli Morol |
| Y Weinyddiaeth Amddiffyn |
| Ymddiriedolaeth Eogiaid Iwerydd |
| Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon |
| Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru |
| Ymddiriedolwy Harbwr Caerloyw |
| Ymgynghorwyr Cynllunio Morol |
| Yr Adran Drafnidiaeth |
| Yr Awdurdod Hedfan Sifil |
| Yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt |
| Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| Ystad y Goron |